# AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# DATGANIAD O GYFRIFON

## 2014/2015

**E.A.AITKEN, BSc (Econ) Anrh., CPFA.**
**CYFARWYDDWR ADNODDAU A THRYSORYDD**

| DATGANIAD O GYFRIFON | TUDALEN |
|---|---|
| Rhagair Eglurhaol ac Adolygiad o Wariant | 3-8 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau / Tystysgrif y Trysorydd | 9 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 10-24 |
| Adroddiad am Gynaliadwyedd | 25-26 |
| Adroddiad Archwilwyr Annibynnol | 27-28 |
| Datganiadau Ariannol | 29-34 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 35-80 |
| Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | 81-83 |


**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol**


| | |
|---|---|
| Nodyn 1 | Polisïau Cyfrifyddu |
| Nodyn 2 | Dyfarniadau Allweddol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu |
| Nodyn 3 | Tybiaethau a wnaed am y Dyfodol a Ffynonellau Pwysig Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif |
| Nodyn 4 | Safonau Cyfrifyddu a Gyhoeddwyd ond sydd Heb eu Mabwysiadu Eto |
| Nodyn 5 | Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen |
| Nodyn 6 | Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifo a'r Sail Cyllido |
| Nodyn 7 | Trosglwyddo i Gronfeydd wedi'u Clustnodi ac o Gronfeydd wedi'u Clustnodi |
| Nodyn 8 | Gwariant ac Incwm Gweithredu Arall |
| Nodyn 9 | Incwm a Gwariant Buddsoddi a Chyllido |
| Nodyn 10 | Trethiant ac Incymau Grant Amhenodol |
| Nodyn 11 | Asedau Anghyffyrddadwy |
| Nodyn 12 | Peiriannau, Eiddo a Chyfarpar |
| Nodyn 13 | Offerynnau Ariannol |
| Nodyn 14 | Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau wedi'u Cario ar Gost wedi'i Hamorteiddio |
| Nodyn 15 | Rhestri Eiddo |
| Nodyn 16 | Dyledwyr |
| Nodyn 17 | Arian Parod a'r Hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
| Nodyn 18 | Credydwyr |
| Nodyn 19 | Cronfeydd Defnyddiadwy |
| Nodyn 20 | Cronfeydd Annefnyddiadwy |
| Nodyn 21 | Cronfa Ailbrisio |
| Nodyn 22 | Cyfrif Addasu Cyfalaf |
| Nodyn 23 | Cronfeydd Pensiwn |
| Nodyn 24 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig |
| Nodyn 25 | Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredu |
| Nodyn 26 | Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi a Chyllido |
| Nodyn 27 | Symiau a Adroddwyd ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau |
| Nodyn 28 | Lwfansau Aelodau |
| Nodyn 29 | Tâl Swyddogion |
| Nodyn 30 | Pecynnau Ymadael |
| Nodyn 31 | Costau Archwilio Allanol |
| Nodyn 32 | Grantiau |
| Nodyn 33 | Partïon Perthynol |

Nodyn 34 Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf
Nodyn 35 Cyllido Gwariant Cyfalaf
Nodyn 36 Ymrwymiadau Cyfalaf
Nodyn 37 Prydlesau
Nodyn 38 Buddion Terfynu
Nodyn 39 Cynlluniau Pensiwn Buddion wedi'u Diffinio
Nodyn 40 Rhwymedigaethau Amodol
Nodyn 41 Natur a Graddau'r Risgiau sy'n Codi o Offerynnau Ariannol

**Rhagair Eglurhaol**

Disgrifir y canllawiau gweithredol i Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw ceisio ehangu rôl Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru mewn perthynas ag atal, addysgu ac ymgysylltu â'r cymunedau a wasanaethant, ond hefyd sicrhau nad yw eu gallu ymatebol i ddiffodd tanau'n cael ei gyfaddawdu.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cynhyrchu cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer rheoli risgiau a gwella gwasanaethau, gan ganolbwyntio mwyfwy ar atal ac addysgu. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n gweithio gyda'r cymunedau a wasanaetha, ac un enghraifft o hyn yw cynnal archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau brys eraill; er enghraifft, mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Heddlu Dyfed Powys a Heddlu De Cymru wedi'u lleoli yn nifer o'n safleoedd, a hefyd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru drwy gynllun y Cyd-ymatebwyr. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys ein cyfranogiad yng Nghymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc a weithredir gan ddiffoddwyr tân oddi ar ddyletswydd, sydd â changhennau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru; prosiect Phoenix a fu'n llwyddiannus iawn ymhlith grwpiau ieuenctid yn yr ardal; yn ogystal â chyfranogi mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad sy'n ofynnol gan y gyfraith; ei brif ddiben yw rhoi gwybodaeth glir am sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am y flwyddyn ariannol 2014-15.

Mae'r datganiadau a'u dibenion fel a ganlyn:-

Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd – dengys y datganiad hwn y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd sydd gan yr awdurdod, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd defnyddiadwy' (h.y. y rheini y gellir eu cymhwyso i ariannu gwariant neu i leihau trethiant lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r awdurdod, y dangosir mwy o fanylion amdani yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae gofyn eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, ac mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd wedi'u Clustnodi yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i gronfeydd wedi'u clustnodi neu o gronfeydd wedi'u clustnodi.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddu yn ystod y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu gan drethiant. Mae awdurdodau'n codi trethiant i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gallai hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethiant yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd.

Datganiad o Sefyllfa Ariannol (Mantolen) – mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr awdurdod. Mae asedau net yr awdurdod (asedau heb rwymedigaethau) yn cael eu cydweddu gan y cronfeydd a gedwir gan yr awdurdod. Adroddir am gronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf yw cronfeydd defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd hynny y caiff yr awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel gall o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnyddio (er enghraifft ni cheir defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf heblaw i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail gategori'n cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio), lle na fyddai symiau ar gael i ddarparu gwasanaethau heblaw pe byddai'r asedau'n cael eu gwerthu; a chronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifo a'r sail cyllido dan reoliadau' yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd.

Datganiad Llif Arian – dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn yr awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Dengys y datganiad sut mae'r awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod drwy ddosbarthu llifoedd arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae swm y llifoedd arian net sy'n codi o weithgareddau gweithredu yn allweddol o ran dangos i ba raddau y caiff gweithrediadau'r awdurdod eu hariannu drwy fodd incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r awdurdod yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol o ran rhagweld hawliadau ar lifoedd arian y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r awdurdod.

Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân - Dengys hwn sefyllfa ariannol cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes arian yn ddyledus gan yr Awdurdod, neu a oes arian yn ddyledus iddo gan Lywodraeth Cymru, er mwyn mantoli'r cyfrif, ynghyd â manylion ei asedau net.

Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon

Mae hwn yn nodi cyfrifoldebau priodol yr Awdurdod a'i swyddogion ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Rhoir datganiad o'r cyfrifoldebau ar gyfer y datganiad hwn o gyfrifon ar dudalen 9.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r datganiad hwn yn adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Awdurdod gan gynnwys y systemau rheoli mewnol a rheoli risg, er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch eu heffeithiolrwydd a/neu i lunio cynllun gweithredu rheoli i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd.

Dengys y tudalennau canlynol y perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2014 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2015 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Nodiadau i'r datganiadau cyfrifyddu – Mae'r nodiadau'n rhoi gwybod ar ba sail y paratowyd y datganiadau ariannol a pha bolisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn datgelu gwybodaeth heb ei chyflwyno mewn mannau eraill yn y datganiadau ariannol ond sy'n berthnasol i ddealltwriaeth o unrhyw rai ohonynt.

## CRYNODEB O'R FLWYDDYN ARIANNOL

**Yr alldro ar gyfer y flwyddyn 2014/15**

| | Cyllideb £000 | Gwirioneddol £000 | Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | |
| Gwariant | 44,729 | 45,983 | 1,254 |
| Incwm | (1,207) | (3,233) | (2,026) |
| Gwariant Net (gan gynnwys grantiau) | 43,522 | 42,750 | (772) |
| Defnyddio Cronfeydd | (605) | (605) | 0 |
| Cyfraniadau Awdurdod Unedol | (42,917) | (42,917) | 0 |
| (Gwarged) /Diffyg | 0 | (772) | (772) |
| **Cyfalaf** (gan gynnwys llithriad a ddygwyd ymlaen) | 4,697 | 2,830 | (1,867) |

**Cysoni ‘Gwarged Refeniw’ â’r ‘Gwarged ar Ddarparu Gwasanaethau’**

| | |
|---|---|
| *Gwarged Refeniw | (772) |
| Addasiadau Cyfrifyddu | 17,430 |
| **Darparu Gwasanaethau | 16,658 |

*wedi’i ddisgrifio yn yr ‘Alldro ar gyfer y Flwyddyn 2014/15’ (uchod)
**wedi’i ddisgrifio yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae’r Awdurdod yn gwario refeniw ar eitemau, sy’n cael eu treulio fel rheol yn ystod y flwyddyn, ac mae hyn yn cael ei gyllido gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod lleol cyfansoddol yn ôl eu poblogaeth. Ar gyfer 2014/15, roedd y cyfrannau fel a ganlyn:

| | Gwerthoedd £000 | Cyfran % |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 8,877 | 20.7 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 3,600 | 8.4 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot | 6,677 | 15.5 |
| Cyngor Sir Penfro | 5,873 | 13.7 |
| Cyngor Sir Powys | 6,366 | 14.8 |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | 11,524 | 26.9 |
| **Cyfanswm** | **42,917** | **100.0** |

**Gwariant Refeniw**

Cyfanswm y gwariant net am y flwyddyn oedd £42.75 miliwn, o’i gymharu â’r gyllideb gwariant net sef £43.52 miliwn. Roedd y £0.77 miliwn o danwariant yn rhannol oherwydd ad-daliadau prydles gyllidol yn cael eu codi’n briodol ar gyfalaf pan oedd y gyllideb wedi’i dal mewn refeniw. Cyflawnwyd gweddill y tanwariant drwy gwtogi ar wariant lle bynnag y bu’n bosibl er mwyn lleddfu’r pwysau a ragwelwyd yn 2015/16 a gwneud y mwyaf o gyfleoedd incwm.

**Ffynonellau Refeniw o Gyllid**

| **2013/14 £000** | | **2014/15 £000** |
|---|---|---|
| 43,596 | Cyfraniadau Awdurdod Unedol | 42,917 |
| 2,482 | Grantiau Refeniw | 2,574 |
| 9 | Llog | 5 |
| 1,628 | Ffioedd a Thaliadau/Ad-daliadau | 655 |
| dim | Cronfeydd Defnyddiadwy | Dim |

**Gwariant Cyfalaf**

Daeth cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn i £2.830 miliwn.

| **2013/14 £000** | | **2014/15 £000** |
|---|---|---|
| 2,012 | Eiddo – Ailwampio, addasiadau, adeiladau newydd | 600 |
| 1,462 | Cerbydau a Pheiriannau | 1,916 |

| | | |
|---|---|---|
| 229 | Cyfarpar TGCh a Gweithredol | 266 |
| 88 | Asedau Anghyffyrddadwy | 48 |
| **3,791** | **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **2,830** |

**Benthyca Cyfalaf**

Mae’r Cod Materion Ariannol yn caniatáu i’r Awdurdod bennu ei derfynau benthyca ei hun ar yr amod bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ystyried bod hynny’n ddoeth, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Mae’r holl fenthyciadau o’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) heb fod unrhyw gyfleuster allanol arall yn ei le ar hyn o bryd. Cymerwyd £3.5 miliwn o fenthyciadau allanol newydd allan yn ystod y flwyddyn o ran y gofyniad cyllid cyfalaf. Cyfanswm y prifswm sydd heb ei dalu fel ar 31 Mawrth 2015 yw £15.526 miliwn.

**Rhwymedigaethau pensiwn**

Yn 2014/15, ymddeolodd pedwar ar hugain o aelodau staff amser cyflawn mewn lifrai. Mae cost net Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i’r gyllideb refeniw yn parhau i dyfu, ac felly hefyd y rhwymedigaeth o ran ymrwymiadau pensiwn y dyfodol. Y rhwymedigaeth a aseswyd ar sail tybiaethau actiwaraidd fel ar 31 Mawrth 2015 oedd £442.301 miliwn ar gyfer cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân a £10.084 miliwn ar gyfer y cynllun pensiwn Llywodraeth Leol.

O dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (Buddion i Gyflogeion) mae gofyn i’r Awdurdod ddarparu manylion asedau a rhwymedigaethau’r dyfodol am bensiynau sy’n daladwy i gyflogeion, rhai’r gorffennol a’r presennol. Amlinellir hyn yn fanylach yn y datgeliadau i’r cyfrifon.

**Cyfrifyddu Cronfeydd**

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dengys y Datganiad o Gyfrifon y cronfeydd ariannol a ddygwyd ymlaen i 2015/16. Mae hyn yn gyson â thriniaeth gyfrifyddu'r blynyddoedd blaenorol, o ran cynnal a defnyddio cronfeydd yn gonglfaen i sefydlogrwydd ariannol corfforaethol a chynllunio gwasanaeth gweithredol yn y tymor byr a’r tymor canolig.

**Costau Cyllido Cyfalaf**

Y tâl a godwyd ar y cyfrifon refeniw gwasanaeth i adlewyrchu cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau oedd £3.602 miliwn. Tâl tybiannol yw hwn ar gyfer dibrisiad a gwneir addasiad i’r balans diwedd blwyddyn er mwyn peidio ag effeithio ar y cyfraniadau sy’n ofynnol i ariannu’r gwasanaeth. Y gost wirioneddol i’r gwasanaeth am gyllido cyfalaf yw £0.784 miliwn o log prydles gyllidol a benthyciad a £2.284 miliwn o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

**Effaith yr Hinsawdd Economaidd Bresennol**

Mae’r dirywiad economaidd cenedlaethol ynghyd â chanlyniadau’r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Tachwedd 2010 wedi rhoi syniad o lefel y toriadau a ddisgwylir i wasanaethau cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Cynllun Gwella Blynyddol yr Awdurdodau’n amlinellu amryw brosiectau i adolygu strwythurau a phrosesau sydd yn eu lle drwy’r holl sefydliad, mewn ymgais

at wneud y gostyngiadau angenrheidiol ar gyfer y dyfodol. Adlewyrchwyd goblygiadau ariannol y rhain yn glir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. A chaledi mewn golwg, rhoddwyd neges glir i ddeiliaid cyllideb ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd lle mae modd, nid yn unig i'r dyfodol ond cyn pen y flwyddyn ariannol.

Ar ôl ystyried doethineb gyda'r cronfeydd, rhagwelir y gellir defnyddio mwyafrif yr arbedion a gynhyrchwyd yn 2014/15 ar gyfer gwelliant gweithredol yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Tân ac Achub.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan y Trysorydd i'r Awdurdod. Hefyd, mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i fwrw golwg ar y cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau; hysbysebir yn y wasg leol fod y cyfrifon ar gael i'w gweld.

**Cydnabyddiaeth**
Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl staff Cyllid yn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ac i'w cydweithwyr drwy'r Awdurdod cyfan, sydd wedi gweithio i baratoi'r datganiadau hyn er mwyn cyrraedd y terfyn amser eleni. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Prif Swyddog Tân a'r Cyfarwyddwyr am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol y broses hon.

**Dyddiad**
**Trysorydd**

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod**
Mae gofyn i'r Awdurdod:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y swyddog hwnnw yw'r Trysorydd.
- rheoli ei faterion i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol ac i ddiogelu ei asedau.
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Trysorydd**
Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod, gan gynnwys y Cyfrifon Cronfeydd Pensiwn yn unol ag arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Cod").

Wrth baratoi'r datganiad hwn o gyfrifon, mae'r Trysorydd:

- wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- wedi gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth;
- wedi cydymffurfio â'r Cod Awdurdod Lleol.

Mae'r Trysorydd hefyd:

- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, a oedd wedi'u diweddaru;
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

**TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD**

Tystiaf fod y cyfrifon yn rhoi golwg gwir a theg ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod fel ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod: ____________________________________

Dyddiad:

**Trysorydd**

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Cod Llywodraethu Corfforaethol – Datganiad Polisi | 11 |
| Cod Llywodraethu Corfforaethol – Datganiad Sicrwydd | 12 |
| Y Cod Llywodraethu Corfforaethol | 13-24 |

## Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cod Llywodraethu Corfforaethol

## Datganiad Polisi

**Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi ohono, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol. Wrth fodloni'r atebolrwydd hwn, mae'r aelodau a'r uwch swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub a gofalu am yr adnoddau sydd ar gael iddo. I'r perwyl hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) / SOLACE (Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru): '*Delivering Good Governance in Local Government*' ynghyd â'r canllawiau cysylltiedig, ac sy'n adlewyrchu gofynion y Fframwaith hwnnw.**

## Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cod Llywodraethu Corfforaethol

## Datganiad Sicrwydd

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol. Wrth fodloni'r atebolrwydd hwn, mae aelodau ac uwch swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub a gofalu am yr adnoddau sydd ar gael iddo. I'r perwyl hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE '*Delivering Good Governance in Local Government'* ac sy'n adlewyrchu gofynion y Fframwaith hwnnw. Mae copi o'r cod ar gael ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk neu gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Pencadlys y Frigâd Dân, Lime Grove Avenue, Caerfyrddin SA31 1SP.

Yn ystod y flwyddyn 2014/15 mae'r Awdurdod wedi adolygu ei drefniadau rheoli ac adrodd er mwyn bodloni'i hun fod ei ddull Llywodraethu Corfforaethol yn ddigonol ac yn effeithiol yn ymarferol. Yn benodol, mae wedi rhoi'r cyfrifoldeb i Glerc yr Awdurdod am oruchwylio'r gwaith o weithredu a monitro'r Cod, adolygu ei weithrediad yn ymarferol ac adrodd yn flynyddol i'r Awdurdod am gydymffurfio â'r Cod ac unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol i gynnal a sicrhau ei effeithiolrwydd.

Rhoddwyd cyfrifoldeb hefyd i Gyfarwyddwr Adnoddau'r Awdurdod (drwy'r gwasanaeth archwilio mewnol ac allanol) am adolygu'n annibynnol ac adrodd i'r Awdurdod yn flynyddol, i roi sicrwydd am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y Cod a'r graddau y cydymffurfir ag ef. Ar sail adroddiadau'r Clerc a'r Cyfarwyddwr Adnoddau sy'n codi o'u hadolygiadau o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, rydym yn fodlon fod y rhain yn ddigonol ac yn gweithredu'n effeithiol. Dylid darllen y datganiad hwn ar y cyd â'r adroddiad sydd ynghlwm am Lywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Awdurdod wrthi'n barhaus yn ceisio gwella effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer llywodraethu materion yr Awdurdod. Byddwn yn adolygu'r cydymffurfio parhaus â'r Cod fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf, ac rydym yn fodlon y bydd y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r angen am welliannau a nodwyd yn adolygiad eleni yn cael eu monitro.

Llofnod: …………………………………………………………………….

Y Cynghorydd W. E. Evans, Cadeirydd yr Awdurdod Tân

Llofnod: ……………………………………………………………………..

C. Davies, Prif Swyddog Tân

# Y COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## 1. Cefndir

Mae'r term Llywodraethu Corfforaethol yn cyfeirio at *'y system y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei defnyddio i gyfarwyddo a rheoli ei swyddogaethau a chysylltu â'r gymuned a wasanaetha'.* Mae felly'n golygu'r holl bolisïau, systemau rheoli, gweithdrefnau a strwythurau sydd, gyda'i gilydd, yn pennu ac yn rheoli'r ffordd y mae'r awdurdod yn rheoli ei fusnesau, yn ffurfio ei strategaethau a'i amcanion, er lles pennaf cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n cydnabod ei gyfrifoldeb fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus am ddarparu gweledigaeth i'r gymuned a wasanaetha ac am arwain drwy esiampl wrth wneud ei benderfyniadau a chyflawni ei brosesau a'i gamau gweithredu eraill, gydag Aelodau a Swyddogion yn dilyn safonau ymddygiad uchel.

Adlewyrchir yr egwyddorion hyn yng nghenhadaeth yr Awdurdod, ei amcanion allweddol a'i werthoedd craidd sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion y gwasanaeth a'n cymunedau.

Ym mis Ebrill 2008 cymeradwyodd a mabwysiadodd yr Awdurdod God Llywodraethu Corfforaethol yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA / SOLACE ***"Delivering Good Governance in Local Government".*** Datblygwyd yr egwyddorion a'r safonau a nodir yn y Cod i helpu'r Awdurdod i wella ei berfformiad, rhoi gwell gwasanaethau lleol i bobl leol ac arwain ei gymunedau'n gryfach.

Mae'r strwythur Llywodraethu Da yn galluogi'r Awdurdod i fynd ar drywydd ei weledigaeth yn effeithiol, ac mae hefyd yn sail i'r weledigaeth honno gyda'r mecanweithiau ar gyfer rheoli risg a sicrhau cywirdeb.

## 2. Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod

Ar ôl mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol, mae angen bod yr Awdurdod yn gallu arddangos ei fod yn cydymffurfio â'r chwe egwyddor graidd sy'n cael eu diffinio yn y Fframwaith ac sy'n sail i'r Cod:

> Canolbwyntio ar ddiben yr awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth i'r ardal leol.
> Bod Aelodau a Swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin, a chanddynt swyddogaethau a rolau pendant.
>
> Hyrwyddo'r gwerthoedd i'r awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da drwy gynnal safonau ymddygiad.
> Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun prosesau rheoli risg a chraffu effeithiol.
> Datblygu gallu'r aelodau a'r swyddogion i fod yn effeithiol.
>
> Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

Ar gyfer pob un o’r rhain, mae’r Awdurdod wedi nodi’r camau y mae angen eu cymryd i fodloni egwyddorion felly a’r prosesau / dogfennaeth sy’n ofynnol i arddangos cydymffurfio. Yn y modd hwn gall yr Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

Er mwyn bodloni’r cyfrifoldeb hwn, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i gynnal tair egwyddor sylfaenol Llywodraethu Corfforaethol, fel y’u nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE.

**Didwylledd a Chynwysoldeb**

Mae didwylledd yn ofynnol i sicrhau y gall rhanddeiliaid fod â ffydd ym mhrosesau penderfynu a rheoli Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a ffydd yn ymagwedd yr unigolion sy’n rhan ohono. Bydd dull cynhwysol hefyd yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid a rhanddeiliaid posibl yn cael y cyfle i ymgysylltu’n effeithiol â chamau gweithredu a phrosesau penderfynu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Unplygrwydd**

Mae hwn yn cynnwys cyflawnrwydd a delio â phobl yn ddidwyll. Bydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru’n gweithredu drwy’r amser â gonestrwydd, anhunanoldeb a gwrthrychedd, gan gynnal safonau uchel o briodoldeb a chywirdeb o ran gofalu am arian cyhoeddus a rheoli ei faterion. Mae fframwaith rheoli effeithiol, sy’n cwmpasu gweithdrefnau penderfynu, darparu gwasanaeth, ansawdd adrodd ariannol a pherfformiad, yn holl bwysig ynghyd â safonau personol a phroffesiynoldeb y staff a gyflogir yn y gwasanaeth ac Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Atebolrwydd**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sefydlu prosesau lle mae Aelodau a Staff a gyflogir yn gyfrifol am eu penderfyniadau a’u camau, gan gynnwys gofalu am arian cyhoeddus a phob agwedd ar berfformiad, ac felly maent yn destun craffu allanol priodol. Cyflawnir hyn gan bob parti sy’n deall y cyfrifoldebau hynny’n glir ac sydd â rolau pendant mewn strwythur cadarn.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sefydlu Cod Llywodraethu Corfforaethol sy’n ddatganiad cyhoeddus o’r ymrwymiad i’r egwyddorion ac sy’n nodi’n glir y ffordd y mae’r ymrwymiad hwn yn cael ei fodloni, neu’r ffordd y bydd yn cael ei fodloni.

Rhannir y cod yn chwe egwyddor, fel y nodwyd gan CIPFA/SOLACE, a phob un ohonynt yn ymdrin ag agwedd benodol ar gyfrifoldebau o ran llywodraethu corfforaethol, sef:

- Canolbwyntio ar ddiben y sefydliad ac ar ganlyniadau i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.
- Perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau pendant.
- Hyrwyddo gwerthoedd i'r sefydliad cyfan ac arddangos llywodraethu da drwy ymddygiad.
- Gwneud penderfyniadau gwybodus, tryloyw a rheoli risg.
- Datblygu gallu'r corff llywodraethu i fod yn effeithiol.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwneud atebolrwydd yn real.

Mae'r cod yn ymdrin â phob un o'r egwyddorion hyn yn unigol ac yn cyflwyno'r ffyrdd y dylai egwyddorion llywodraethu corfforaethol gael eu hadlewyrchu ym mhob un. Nodir hefyd y mesurau sy'n sicrhau bod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion.

Mae'r datganiad sicrwydd sydd ar flaen y ddogfen hon wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Gwella'r Awdurdod.

| **Egwyddor 1: Canolbwyntio ar ddiben y sefydliad ac ar ganlyniadau i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau** | | |
|---|---|---|
| **Yr egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym yw:-** | **Beth y byddwn yn ei wneud i'w bodloni?** | **Sut y byddwn yn arddangos ein bod yn cydymffurfio?** |
| **Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod ac ar ganlyniadau i'r gymuned a'i dinasyddion, a chreu gweledigaeth i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:**<br>Drwy:-<br>• Arwain drwy gyfathrebu gweledigaeth yr Awdurdod yn glir, yn ogystal â'r canlyniadau a fwriedir i ddefnyddwyr gwasanaethau.<br>• Sicrhau bod y defnyddwyr yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel, yn uniongyrchol neu mewn partneriaeth â chyrff eraill.<br>• Sicrhau bod yr | • Gwneud datganiad clir o ddiben a gweledigaeth yr Awdurdod, a'i adolygu'n rheolaidd, yn sail i gynllunio gwasanaeth.<br>• Cyhoeddi'n flynyddol gynllun o weithgareddau a chanlyniadau a fwriedir i wella gwasanaethau gan nodi ym mha ffyrdd y bydd perfformiad mewn perthynas â'r amcanion hyn yn cael ei fesur.<br>• Cyhoeddi adroddiad am weithgareddau, cyflawniadau a pherfformiad yr Awdurdod, gan gynnwys ei sefyllfa a'i berfformiad ariannol.<br>• Datblygu a gweithredu | • Cyhoeddi datganiad clir o weledigaeth yr Awdurdod, ei Ddatganiad o Genhadaeth a'i werthoedd yn ei Gynlluniau Gwella a Lleihau Risg.<br>• Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella, gyda diweddariadau perfformiad chwarterol ar gael drwy'r rhyngrwyd.<br>• Cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon blynyddol gydag adroddiadau monitro cyllideb chwarterol i'r Pwyllgor Adnoddau.<br>• Rhoi proses ar waith ar gyfer cofnodi cwynion a |

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau ac yn arddangos gwerth am arian. | blaengynllun ariannol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i fodloni ei gynlluniau a fwriedir ac i sicrhau gwerth am arian. .<br>• Datblygu cynlluniau i gynnal y gwasanaethau gorau posibl pe byddai rhywbeth yn tarfu ar barhad y gwasanaeth.<br>• Datblygu trefniadau pendant ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu gwell gwasanaethau. | sylwadau ac ymateb iddynt ac adrodd am hynny.<br>• Cynnal a phrofi'n rheolaidd y cynlluniau parhad gwasanaeth yn seiliedig ar asesu risg bygythion i'r Awdurdod.<br>• Cyhoeddi strategaeth bartneriaeth.<br>• Pob partneriaeth i gynnwys proses reolaidd i werthuso a monitro perfformiad.<br>• Cyhoeddi pob asesiad allanol o berfformiad. |
| **Egwyddor 2: Perfformio'n effeithiol mewn swyddogaethau a rolau pendant** | | |
| **Yr egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym yw:-** | **Beth y byddwn yn ei wneud i'w bodloni?** | **Sut y byddwn yn arddangos ein bod yn cydymffurfio?** |
| **Gweithio i gyflawni'r amcanion a nodwyd mewn rolau a swyddogaethau pendant i Aelodau a Swyddogion:**<br>Drwy:-<br>• Fod yn glir am swyddogaethau a rolau'r Awdurdod a'i bwyllgorau a'i swyddogion.<br>• Sicrhau perthynas waith adeiladol ac effeithiol rhwng Aelodau a Swyddogion a sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu cyflawni i safon uchel.<br>• Sicrhau bod y | • Gosod datganiad clir o rolau a chyfrifoldebau priodol Aelodau a Swyddogion sy'n egluro'r dirprwyaethau i swyddogion.<br>• Sefydlu protocol i sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn cyfathrebu'n effeithiol.<br>• Egluro'r telerau ac amodau cyflogaeth, gan gynnwys tâl aelodau a swyddogion, a sefydlu mecanwaith effeithiol i reoli'r broses.<br>• Sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar gyfer monitro | • Cynnal cylch gorchwyl pwyllgor i bob pwyllgor.<br>• Cynnal cynllun dirprwyo i'r Prif Swyddog Cyllid, y Clerc a'r Cyfarwyddwr Cyllid.<br>• Cynnal cynllun o reolau sefydlog a phrotocol Aelod/Swyddog i reoli rhyngweithio rhwng aelodau/swyddogion.<br>• Cynnal system i roi gwybodaeth i'r Aelodau fel rhan o'r cylch pwyllgorau.<br>• Sicrhau bod gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd sy'n berthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| berthynas rhwng yr Awdurdod a'r cyhoedd yn glir a bod y naill ochr yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan y llall. | perfformiad gwasanaeth yn cael eu sefydlu.<br>• Sicrhau bod diben a statws cyfreithiol unrhyw bartneriaethau yn glir a bod rolau a chyfrifoldebau pob partner yn glir. | ac wedi'u diweddaru.<br>• Adrodd yn barhaus am berfformiad i reolwyr drwy system amser real gydag adroddiadau chwarterol i Aelodau drwy PRAC<br>• Gweithredu proses rheoli risg partneriaeth i werthuso pob partneriaeth arwyddocaol cyn ei dechrau. |
| **Egwyddor 3 : Hyrwyddo gwerthoedd i'r sefydliad cyfan ac arddangos llywodraethu da drwy ymddygiad.** | | |
| **Yr egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym yw:-** | **Beth y byddwn yn ei wneud i'w bodloni?** | **Sut y byddwn yn arddangos ein bod yn cydymffurfio?** |
| **Hyrwyddo ac arddangos gwerthoedd yr Awdurdod drwy ein hymddygiad:**<br>Drwy:-<br>• Sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n arddangos gwerthoedd yr Awdurdod.<br>• Sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn cael eu rhoi ar waith a'u bod yn effeithiol. | • Sefydlu gwerthoedd yr Awdurdod a'u cyfleu i'r cyhoedd, ei staff a'i randdeiliaid.<br>• Arddangos bod y gwerthoedd hyn yn cael eu cymhwyso wrth wneud penderfyniadau ac mewn ymddygiad cyffredinol.<br>• Mabwysiadu codau ymddygiad sy'n diffinio'r safonau a'r ymddygiad a ddisgwylir wrth weithio i'r Awdurdod neu gyda'r Awdurdod.<br>• Cynnal trefniadau i sicrhau nad oes buddiannau personol, tuedd na rhagfarn yn | • Cyhoeddi gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion mewn cyhoeddiadau allweddol gan gynnwys y Cynllun Gwella.<br>• Cyhoeddi a gweithredu codau ymddygiad i Aelodau a Swyddogion.<br>• Mynnu'n flynyddol fod Aelodau ac Uwch Swyddogion yn cwblhau datganiadau buddiant a ffurflenni trafodion parti perthynol.<br>• Cynnal pwyllgor safonau i oruchwylio safonau Aelodau a |

| | | |
|---|---|---|
| | dylanwadu ar Aelodau ac uwch reolwyr wrth wneud penderfyniadau.<br>• Cynnal trefniadau ar gyfer adrodd, gan ymchwilio i achlysuron lle mae safonau'n cwympo islaw'r rheini a ddisgwylir, ac ymdrin â hwy.<br>• Wrth weithio gyda phartneriaid, cytuno ar y gwerthoedd hynny y bydd pob parti i'r bartneriaeth yn eu dilyn wrth weithredu. | chlywed unrhyw gwynion.<br>• Cynnal proses ddisgyblu i ymdrin ag unrhyw achosion o dorri'r cod ymddygiad i Swyddogion.<br>• Cadw protocolau a Rheolau Gweithdrefn Ariannol yr Awdurdod wedi'u diweddaru.<br>• Cynnal a chyhoeddi protocol "chwythu'r chwiban" er mwyn adrodd yn gyfrinachol am bryderon ynghylch ymddygiad.<br>• Cynnal Polisi Atal Twyll a Llygredigaeth<br>• Cynnal gweithdrefn gwyno a sylwadau/clod ac adrodd am y canlyniadau o leiaf bob blwyddyn.<br>• Sefydlu trefniadau gweithio mewn partneriaethau arwyddocaol sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd hyn. |
| **Egwyddor 4 : Gwneud penderfyniadau gwybodus, tryloyw a rheoli risg** | | |
| **Yr egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym yw:-** | **Beth y byddwn yn ei wneud i'w bodloni?** | **Sut y byddwn yn arddangos ein bod yn cydymffurfio?** |
| **Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n destun gwerthuso a rheoli risg effeithiol:**<br>Drwy:-<br>• Fod yn drwyadl ac yn dryloyw ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau a gwrando ar bob sylw a phryder adeiladol a gweithredu yn ei gylch.<br>• Sicrhau gwybodaeth, | • Cynnal trefniadau i gofnodi penderfyniadau'r Awdurdod ac ar ba sail y gwnaethpwyd y penderfyniadau hynny.<br>• Cynnal trefniadau i nodi a chofnodi gwrthdaro buddiannau gan Aelodau ac Uwch Swyddogion a sicrhau nad yw'r rhain yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau. | • Cyhoeddi cofnodion ac adroddiadau'r Awdurdod ar y wefan.<br>• Cynnal cynllun cyhoeddi a chydymffurfio â'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth cyn pen yr amserlenni a amodwyd.<br>• Cadw cofrestr o fuddiannau Aelodau ac uwch reolwyr.<br>• Cynnal protocol "chwythu'r chwiban" er |

| | | |
|---|---|---|
| cyngor a chymorth o ansawdd uchel i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn effeithiol a'u bod yn bodloni anghenion y gymuned.<br>• Sicrhau bod y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod yn cael eu rheoli'n effeithiol, gan gynnwys y rheini a allai atal cyfleoedd i wella gwasanaethau.<br>• Gweithredu yn y fframwaith deddfwriaethol sydd ar waith a defnyddio'r pwerau hynny a roir gan y gyfraith er budd y gymuned. | • Cynnal trefniadau lle mae Aelodau, staff, contractwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gallu codi pryderon am ymddygiad unrhyw un sy'n gysylltiedig â gwaith yr Awdurdod.<br>• Cynnal trefniadau effeithiol ar gyfer archwilio mewnol annibynnol yr Awdurdod.<br>• Cynnal Pwyllgor Safonau effeithiol.<br>• Sicrhau bod penderfynwyr yn cael digon o wybodaeth briodol i wneud penderfyniadau effeithiol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol ac ariannol proffesiynol.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant yr Awdurdod a bod Aelodau a swyddogion yn ystyried risgiau wrth wneud penderfyniadau.<br>• Gweithio yn y fframwaith deddfwriaethol sydd ar gael a manteisio'n llawn ar ei bwerau cyfreithiol er budd y gymuned.<br>• Wrth weithio mewn partneriaeth, sicrhau bod yr un safonau llywodraethu da'n cael eu cymhwyso i weithgareddau'r bartneriaeth. | mwyn gallu adrodd yn gyfrinachol am bryderon am ymddygiad.<br>• Adrodd am gynllun archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad blynyddol i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Perfformiad.<br>• Trosolwg Archwilio Allanol o drefniadau Archwilio Mewnol.<br>• Cyhoeddi cofnodion ac adroddiadau'r Pwyllgor Safonau.<br>• Cyhoeddi a gweithredu strategaeth a pholisi rheoli risg.<br>• Sôn am effaith risgiau allweddol ar bob adroddiad polisi allweddol i Aelodau.<br>• Adrodd yn rheolaidd am statws cyfredol risgiau strategol a risgiau busnes i'r Pwyllgor.<br>• Cynnwys sylwadau am bob adroddiad polisi am statws cyfreithiol cynigion felly.<br>• Adrodd yn flynyddol am bob gweithgarwch partneriaeth gan gynnwys materion risg a llywodraethu. |
| | | |
| **Egwyddor 5 : Datblygu gallu'r corff llywodraethu i fod yn effeithiol** | | |
| **Yr egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym yw:-** | **Beth y byddwn yn ei wneud i'w bodloni?** | **Sut y byddwn yn arddangos ein bod yn cydymffurfio?** |

| | | |
|---|---|---|
| **Datblygu gallu Aelodau a Swyddogion i fod yn effeithiol a darparu gwasanaethau'n effeithiol:**<br>Drwy:-<br>• Sicrhau bod gan aelodau a Swyddogion y sgiliau, yr wybodaeth, y profiad a'r adnoddau i berfformio'n dda yn eu rolau.<br>• Datblygu gallu pobl yn unigol ac mewn grwpiau a gwerthuso eu perfformiad.<br>• Annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno â'r Awdurdod i sicrhau cynrychiolaeth gan bob rhan o'r gymuned. | • Asesu'r sgiliau sy'n ofynnol gan Aelodau a Swyddogion, gan gynnwys y Swyddogion statudol, a datblygu'r rhain yn barhaus er mwyn i rolau unigol gael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon.<br>• Adolygu perfformiad Pwyllgorau ac Uwch Swyddogion yn rheolaidd a gweithredu cynlluniau am ddatblygiad a hyfforddiant pellach lle mae angen.<br>• Cynnal trefniadau i annog pob rhan o'r gymuned i weithio i'r Awdurdod a chyda'r Awdurdod a chyfrannu at ddatblygu ei bolisïau a'i weithgareddau.<br>• Wrth weithio gyda phartneriaid, sicrhau bod yr un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i waith y bartneriaeth. | • Gweithredu cynllun adolygu personol, datblygiad a pherfformiad staff sy'n ymgorffori gofynion datblygiad a hyfforddiant personol.<br>• Gweithredu rhaglen flynyddol ar gyfer hyfforddi a chynefino Aelodau a chofnodi'r presenoldeb.<br>• Gweithredu'r System Datblygiad Personol Integredig (IPDS) genedlaethol i staff gweithredol.<br>• Cyhoeddi strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori ac adrodd am ganlyniadau prosesau felly i Aelodau.<br>• Sefydlu ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgynghoriad â staff i ystyried cynigion polisi a sylwi arnynt.<br>• Hyrwyddo'r gwasanaeth tân yn gyfle gyrfa.<br>• Cyflenwi'r cynllun cydraddoldeb corfforaethol i gyflawni lefel tri o'r safon gydraddoldeb. |
| **Egwyddor 6 : Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwneud atebolrwydd yn real** | | |
| **Yr egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd gennym yw:-** | **Beth y byddwn yn ei wneud i'w bodloni?** | **Sut y byddwn yn arddangos ein bod yn cydymffurfio?** |
| **Ymgysylltu â'r gymuned a wasanaethwn i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus lleol cadarn:**<br>Drwy:- | • Gosod atebolrwydd allweddol yr Awdurdod yn glir ac egluro ym mha foddau y bydd hwn yn destun adrodd.<br>• Cynnal trefniadau i gyfathrebu ac | • Cyhoeddi a chyflenwi'r cynllun cyfathrebu corfforaethol.<br>• Cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr undeb i ymgynghori ynghylch newidiadau allweddol o |

| | | |
|---|---|---|
| • Ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliad lleol, gan gynnwys partneriaid.<br>• Ymgynghori mewn modd gweithgar a threfnus â'r cyhoedd a grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd effeithiol a phriodol.<br>• Mynd ati'n weithgar a threfnus i fodloni cyfrifoldebau i staff. | ymgynghori â phob rhan o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol am bolisïau a gwasanaethau'r Awdurdod.<br>• Cynnal prosesau i ymgynghori â staff a'u cynrychiolwyr.<br>• Sicrhau bod adborth o'r broses ymgynghori'n cael ei ymgorffori wrth ddatblygu cynlluniau perfformiad y dyfodol.<br>• Cyhoeddi cynllun perfformiad blynyddol gyda diweddariadau perfformiad chwarterol sy'n nodi cynlluniau a pherfformiad, gan gynnwys perfformiad ariannol.<br>• Sicrhau bod holl gyfarfodydd ac adroddiadau'r Awdurdod yn hygyrch i'r cyhoedd heblaw lle mae deddfwriaeth yn mynnu eu bod yn gyfrinachol.<br>• Wrth weithio gyda phartneriaid, sicrhau bod yr un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i waith y bartneriaeth. | ran polisi a darparu gwasanaeth.<br>• Nodi yn adroddiadau'r Awdurdod ymhle mae canlyniadau ymgynghori wedi dylanwadu ar benderfyniadau polisi.<br>• Sicrhau bod copïau o adroddiadau blynyddol, y Cynllun Lleihau Risg a'r Cynllun Gwella ar gael ar y wefan ac mewn llyfrgelloedd.<br>• Sicrhau bod holl gyfarfodydd yr Awdurdod yn agored i'r cyhoedd, a bod yr holl adroddiadau a chofnodion ar gael drwy'r rhyngrwyd. Gwneir dogfennau eraill ar gael dan ddarpariaethau Rhyddid Gwybodaeth.<br>• Cynnwys darpariaethau atebolrwydd a chyfathrebu clir ym mhob cytundeb partneriaeth. |

**Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Dechreuodd y broses adolygu fewnol flynyddol dan y Cod newydd ar y pryd yn 2008/09 ac fe'i cynhaliwyd i ddechrau gan yr uwch dîm rheoli, wedi'i atgyfnerthu gan gyfraniad yr adran Archwilio Mewnol. Diben hwn oedd pennu i ba raddau oedd yr Awdurdod yn bodloni gofynion y fframwaith a fabwysiadwyd a chanfod pa gamau gweithredu yr oedd eu hangen i sicrhau y gallai'r Awdurdod arddangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol yn gyson.

Daeth yr adolygiad cychwynnol hwnnw i'r casgliad bod y llywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod yn cael ei reoli'n dda a'i fod yn unol â fframwaith CIPFA / SOLACE, gyda llawer o enghreifftiau o drefniadau llywodraethu da ar waith, e.e. y Datganiad o Gyfrifon blynyddol, y fframwaith cynllunio busnes a rheoli perfformiad, y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg (a ddisodlwyd bellach), y Cyfansoddiad, strwythur Pwyllgorau effeithiol, craffu cadarn, hyfforddiant parhaus a pherthnasol a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Dim ond rhai mân wendidau a amlygwyd gan yr adolygiad, lle nad oedd y rheolaethau'n gweithredu eto'n unol â'r fframwaith.

Ers hynny, cynhaliwyd archwiliadau mewnol dilynol a manylach, yn archwilio rhai o'r meysydd risg uwch, fel y'u blaenoriaethwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau. Mae'r rhain wedi cynnwys archwiliad Caffael a Phartneriaethau, archwilio ac asesu'r trefniadau Parhad Busnes yn y sefydliad, archwilio ac asesu'r trefniadau Risg Busnes yn y sefydliad a'r archwiliad blynyddol o systemau cyflogres, credydwyr a dyledwyr yr Awdurdod. Bu'r archwiliadau hyn yn gadarnhaol, heb ddangos dim gwendidau sylfaenol, ac adroddwyd amdanynt i Bwyllgor Archwilio ac Adolygu Perfformiad yr Awdurdod (sydd bellach â'r teitl PASC).

Yn 2011/12, cynhaliwyd archwiliadau mewnol pellach i sicrhau bod systemau a phrosesau'n gweithio'n effeithiol a'u bod yn cael eu monitro. Rhoddwyd pwyslais penodol ar y prosesau Rheoli Risg Partneriaeth a materion llywodraethu, cyhoeddi a gweithredu'r Cod Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion, cynnal rheolau a phrotocolau Gweithdrefn Ariannol wedi'u diweddaru, cadw cofrestr buddiannau i Aelodau ac uwch reolwyr a chyflenwi'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol i gyrraedd lefel 3 o'r Safon Gydraddoldeb. Y casgliad cyffredinol ar yr adroddiadau hyn oedd bod y gweithdrefnau monitro ac adrodd yn effeithiol. Y bwriad yw cynnal archwiliadau manwl ar bob agwedd ar y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn flynyddol, ar sail dreigl. Caiff y Cod ei ddiweddaru, ei fonitro a'i adolygu'n barhaus gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol a Chymorth i Aelodau.

Yn 2012-13, cynhaliwyd archwiliadau allanol pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn am Asesiad Corfforaethol y Mesur Llywodraeth Leol, yr Adroddiad Gwella Blynyddol ac ar Lywodraethu Corfforaethol. Unwaith eto, bu'r archwiliadau hyn yn rhai cadarnhaol. Bu adolygiadau thematig Swyddfa Archwilio Cymru am TGCh a Rheoli Gwybodaeth yn destun craffu sylweddol ac aethpwyd i'r afael â'r holl argymhellion. Croesawyd hefyd archwiliadau'r Tîm Asesu Cymheiriaid.

Yn ystod y flwyddyn 2012-13, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad trwyadl o broses/asesiad Llywodraethu Corfforaethol y sefydliad fel rhan o'i hadolygiad thematig ar draws cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru. Er bod y canfyddiadau'n galonogol ar y cyfan, roedd rhai argymhellion ar gyfer gwelliant. Y rhain oedd (1) sicrhau bod staff yn cael eu cynnwys mwy ar draws yr Awdurdod (2) rhoi mwy o bwyslais ar Ymgysylltu â'r Gymuned (3) sicrhau cymariaethau digonol o berfformiad ag Awdurdodau Gwella eraill a (4) ystyried trefniadau llywodraethu'n well ynghylch partneriaethau a chomisiynu. O ganlyniad, cafwyd newidiadau yn y broses a'r strwythurau er mwyn adlewyrchu'r argymhellion hyn yn well a mynd i'r afael yn well â hwy. Trafodwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn y Grŵp Cynghori ar Bolisi, sef gweithgor o'r haen 'Penaethiaid' o uwch swyddogion, a chafwyd 'ailwampio' trwyadl o ganlyniad, drwy'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol a Gwasanaethau Democratig. Erbyn hyn, adolygir Llywodraethu Corfforaethol gan yr holl staff perthnasol yn yr Awdurdod, gan gynnal ymarfer cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn 2014/15. Gwnaethpwyd gwelliannau o ran ymgysylltu â'n Cymunedau, gyda chynlluniau i ymgynghori ymhellach ar y ffordd ymlaen yn yr amser caled presennol. Cafwyd Archwiliad Mewnol manwl o'r trefniadau a systemau Partneriaeth, a ddatblygwyd yn sylweddol ers yr archwiliad, gan ddwyn canlyniadau cadarnhaol. Mae angen rhagor o waith ar y cymariaethau perfformiad ag Awdurdodau Gwella eraill, ac mae ymarfer cynhwysfawr ar y gweill ar gyfer Cynllun Gwella'r flwyddyn nesaf.

Roedd Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gan gadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd am wella yn effeithiol a'i fod wedi gwneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer 2015-16. Amlygwyd rhai gwelliannau posibl, er enghraifft roedd yn amlinellu bod angen datblygu polisi Cronfeydd, defnyddio data cymharol, a datblygu proses fwy tryloyw o Gynllunio Ariannol Tymor Canolig. Soniwyd hefyd fod angen mabwysiadu prosesau cynllunio prosiect ar gyfer pob prosiect, o ystyried bod gan brosiect y tair gwylfa rai diffygion yn hyn o beth, gan ddibynnu gormod ar y broses gyd-drafod a dim digon ar adrodd ffurfiol i Aelodau – serch hynny, cydnabuwyd bod hyn yn cael ei wneud yn anffurfiol.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd archwiliadau eraill - roedd yr archwiliad ansawdd data yn gadarnhaol, ac felly hefyd yr archwiliadau ariannol o gyflogres, dyledwyr a chredydwyr. Gohiriwyd archwiliad a gynlluniwyd o weithredu'r system AD/Cyflogres newydd oherwydd oedi cyn ei gweithredu, ond bydd yn cael ei gynnal yn y flwyddyn ariannol newydd. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol mewn sefyllfa i ardystio cau'r archwiliad ar gyfer 2013-14 ac ystyried trefniadau'r Awdurdod i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru fod angen pennu sut y gellir gwella trefniadau rheoli newid a llywodraethu er mwyn rhoi cymorth i uwch swyddogion sy'n gweithredu dulliau gwaith newydd ac i ddangos perchenogaeth gyfunol ar benderfyniadau a wneir. Bwriwyd ymlaen â'r rhain drwy gyd-drafodaethau cynnar ar gynllunio am welliant yn y dyfodol ynghyd ag argymhellion eraill Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwell cyfathrebu, a thrwy nifer o ddiwrnodau cynllunio Corfforaethol ar y Cyd gyda chyrff Cynrychiadol, Aelodau ac Uwch Reolwyr. Cafwyd adolygiad trwyadl o strwythurau a sicrhawyd dealltwriaeth glir o ran cydberchenogaeth.

Mae'r adroddiadau hyn, ynghyd â gwaith y Grŵp Rheoli Risg Busnes mewnol, oll yn sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol yn yr Awdurdod hwn.

Mae archwiliadau allanol a mewnol o’r wybodaeth reoli, rheolau gweithdrefn ariannol a chyfarwyddiadau ariannol, rheolau sefydlog contractau, trefniadau gweinyddol (gan gynnwys gwahanu dyletswyddau) a goruchwylio rheolaeth oll wedi rhoi sicrwydd cyffredinol ynghylch rheoli materion ariannol yr Awdurdod ac ynghylch eu gweinyddu’n briodol.  Yn ogystal, mae KPMG, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, wedi adrodd bod adnoddau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru’n cael eu defnyddio’n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ym marn eich Swyddogion felly, nid yw’r adolygiad o drefniadau llywodraethu ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 wedi amlygu unrhyw feysydd sy’n peri gofid mawr. Credwn fod y trefniadau presennol yn addas at ddiben, a rhai meysydd wedi gwella’n sylweddol, a’u bod yn ddigonol i fodloni nodau corfforaethol yr Awdurdod. Mae’r materion a amlygwyd yn y Cynllun Gwella a’r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael sylw gan y swyddogion priodol a bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy’r Bwrdd Gweithredol a’r Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad. Cynigiwn gymryd camau i fynd i’r afael ag unrhyw welliannau gofynnol y soniwyd amdanynt uchod er mwyn gwella’r trefniadau llywodraethu ymhellach.

## ADRODDIAD AM GYNALIADWYEDD

Diben adrodd am gynaliadwyedd yw rhoi gwybod am berfformiad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.  Ystyrir ei bod yn hanfodol rhoi gwybod am y meysydd hyn er mwyn rheoli newid tuag at economi fyd-eang fwy cynaliadwy.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i gyflawni a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Am y tro cyntaf, rhoddwyd gwybodaeth am gynaliadwyedd eleni ochr yn ochr â'r wybodaeth ariannol fwy confensiynol. Rhagwelir y bydd yr adrodd yn y maes hwn yn cael ei ehangu yn y dyfodol wrth i brosesau casglu data gael eu datblygu, mewn ymgais at ddarparu darlun mwy cyflawn o berfformiad cyffredinol yr Awdurdod.

| **Trosiant Staff** | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Ymddeoliadau | 18 | 20 | 40 |
| Ymddiswyddiadau gan Staff Amser Cyflawn | 17 | 3 | 3 |
| Ymddiswyddiadau gan Staff ar Alwad | 17 | 63 | 74 |
| Salwch | 1 | 5 | 1 |
| Diswyddiadau | 0 | 0 | 2 |
| Diwedd Contract Dros Dro | 4 | 0 | 2 |
| Ymddeol/Dileu Swydd | 0 | 16 | 0 |
| Dileu Swydd yn Wirfoddol | 0 | 0 | 0 |

Mae'n debyg bod trosiant staff wedi cynyddu yn 2014/15 oherwydd y cynnydd mewn ymddeoliadau ac ymddiswyddiadau gan Staff ar Alwad.

| **Damweiniau y Rhoddwyd Gwybod Amdanynt** | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Anafiadau | 75 | 68 | 71 |
| Anafiadau Dros Saith Diwrnod | 19 | 14 | 10 |
| Anafiadau Difrifol | 2 | 3 | 1 |

Mae'r Awdurdod yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddamweiniau'n digwydd, ac arddangosir hyn yng ngostyngiad y digwyddiadau rhwng 2012/13 a 2014/15.

| **Llywodraethu** | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | 82% | 71% | 78% |

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion fframwaith CIPFA/SOLACE.

| **Menywod mewn Swyddi Rheoli** | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Canran o Fenywod mewn Swyddi Rheoli | 15% | 15% | 15 % |

Mae'r Awdurdod yn parhau i fabwysiadu'r un egwyddorion a ymgorfforwyd dros nifer o flynyddoedd o ran gosod menywod mewn swyddi rheoli.

| **Gwariant ar Ynni** | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Trydan | 181 | 268 | 285 |
| Nwy | 187 | 141 | 152 |

| **Ein Pobl** | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Staff (Cyfwerth ag Amser Llawn) ar Ddiwedd y Flwyddyn | 1,363 | 1,291 | 1,256 |
| Gwariant Staff | £33,334k | £33,545k | £32,112k |
| Absenoliaeth (sifft y pen) | 7.9 | 9.58 | 8.57 |
| Trosiant Staff | 4.18 | 6.56 | 3.96 |

| **Nifer y Cwynion gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau** | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| Cwynion a Gadarnhawyd ac a ddaeth i Gasgliad Boddhaol | 6 | 3 | 18 |
| Cwynion heb eu Cadarnhau | 18 | 10 | 18 |
| Hawliadau Yswiriant | 1 | 0 | 0 |
| Cwynion a Dynnwyd yn ôl | 3 | 3 | 4 |
| Cwynion sy'n Parhau | 0 | 1 | 1 |
| Dim Cwyn | 3 | 5 | 3 |
| Materion yr Heddlu | 0 | 0 | 0 |

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystyried pob cwyn o ddifrif, gan ymchwilio i bob un yn ôl ei rhinweddau, er mwyn dod i gasgliad boddhaol.

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau perthynol:

- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
- Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthynol.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### Cyfrifoldebau priodol y swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalennau 29 i 34, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi barn wir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthynol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod yn cydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthynol sy'n ddigon i roi sicrhad rhesymol fod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthynol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a ydy'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; i ba raddau mae amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol yn rhai rhesymol, a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthynol.

Rwyf hefyd yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r wybodaeth heb fod yn ariannol yn y Rhagair Eglurhaol i nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig a'r nodiadau perthynol ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd fel petai'n sylweddol anghywir yn seiliedig ar yr wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad, neu sy'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os caf wybod am unrhyw anghysondebau neu gamddatganiadau sylweddol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn am ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthynol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fel ar 31 Mawrth 2015 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

**Barn am ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau perthynol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac o swm a threfniadaeth asedau a rhwymedigaethau'r gronfa fel ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth yn y Rhagair Eglurhaol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthynol.

**Materion y rhoddaf wybod amdanynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf ddim i roi gwybod amdano o ran y materion canlynol, y rhoddaf wybod ichi amdanynt:

- os credaf nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- os credaf nad yw'r datganiadau cyfrifyddu'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- os credaf nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad;
- os credaf fod y Datganiad Llywodraethu'n cynnwys camddatganiadau ffeithiol sylweddol neu os yw'n anghyson â gwybodaeth arall y gwn amdani o'm harchwiliad.

**Tystysgrif o gwblhau archwiliad**

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Ar gyfer ac ar ran**

**Anthony Barrett**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Cathedral Road**
**Caerdydd CF11 9LJ**
**30 Medi 2015**

## DATGANIADAU ARIANNOL

| | |
|---|---|
| Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd | 30-31 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 32 |
| Mantolen | 33 |
| Datganiad Llif Arian | 34 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 35-80 |
| Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân | 81-83 |

# DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfeydd Cronfa Gyffredinol wedi'u Clustnodi £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy £000 | Cronfeydd Annefnyddiadwy £000 | Cyfanswm Cronfeydd yr Awdurdod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans fel ar 31 Mawrth 2013** | **0** | **7,312** | **48** | **7,360** | **(365,490)** | **(358,130)** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd yn ystod 2013/14** | | | | | | |
| Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (19,087) | 0 | 0 | (19,087) | 0 | (19,087) |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 32,609 | 32,609 |
| **Cyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(19,087)** | **0** | **0** | **(19,087)** | **32,609** | **13,522** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifo a'r sail cyllido o dan reoliadau (nodyn 6) | 19,592 | 0 | 0 | 19,592 | (19,592) | 0 |
| **Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd wedi'u Clustnodi** | **505** | **0** | **0** | **505** | **13,017** | **13,522** |
| Trosglwyddiadau i Gronfeydd wedi'u Clustnodi/o Gronfeydd wedi'u Clustnodi (nodyn 7) | (505) | 505 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynnydd/Gostyngiad yn 2013/14** | **0** | **505** | **0** | **505** | **13,017** | **13,522** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014 a ddygwyd ymlaen** | **0** | **7,817** | **48** | **7,865** | **(352,473)** | **(344,608)** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfeydd Cronfa Gyffredinol wedi'u Clustnodi £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy £000 | Cronfeydd Annefnyddiadwy £000 | Cyfanswm Cronfeydd yr Awdurdod £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **0** | **7,817** | **48** | **7,865** | **(352,473)** | **(344,608)** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd yn ystod 2014/15** | | | | | | |
| Gwarged neu (ddiffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (16,658) | 0 | 0 | (16,658) | 0 | (16,658) |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | 0 | 0 | (30,309) | (30,309) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(16,658)** | **0** | **0** | **(16,658)** | **(30,309)** | **(46,967)** |
| Addasiadau rhwng y sail cyfrifo a'r sail cyllido dan reoliadau (nodyn 6) | 17,430 | 0 | 531 | 17,961 | (17,961) | 0 |
| **Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd wedi'u Clustnodi** | **772** | **0** | **531** | **1,303** | **(48,270)** | **(46,967)** |
| Trosglwyddiadau i Gronfeydd wedi'u Clustnodi / o Gronfeydd wedi'u Clustnodi (nodyn 7) | (772) | 772 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cynnydd/Gostyngiad yn 2014/15** | **0** | **772** | **531** | **1,303** | **(48,270)** | **(46,967)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015 a ddygwyd ymlaen** | **0** | **8,589** | **579** | **9,168** | **(400,743)** | **(391,575)** |

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| 2013/14 | | | | 2014/15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £000** | **Incwm Gros £000** | **Gwariant Net £000** | | **Gwariant Gros £000** | **Incwm Gros £000** | **Gwariant Net £000** |
| 38,783 | (1,575) | 37,208 | Gweithrediadau Diffodd Tân ac Achub | 35,270 | (1,471) | 33,799 |
| 6,232 | (1,190) | 5,042 | Diogelwch Cymunedol | 6,036 | (1,119) | 4,917 |
| 1,713 | (856) | 857 | Cynllunio at Argyfyngau'r Gwasanaeth Tân | 1,603 | (805) | 798 |
| 851 | (23) | 828 | Craidd corfforaethol a democratig | 817 | (25) | 792 |
| 10 | 0 | 10 | Costau heb eu dosbarthu | 524 | 0 | 524 |
| 47,589 | (3,644) | 43,945 | **Cost Gwasanaethau** | 44,250 | (3,420) | 40,830 |
| | | 0 | Gwariant gweithredu arall (nodyn 8) | | | 139 |
| | | 18,790 | Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi (nodyn 9) | | | 18,606 |
| | | (43,648) | Trethiant ac incwm grant amhenodol (nodyn 10) | | | (42,917) |
| | | **19,087** | **(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | **16,658** |
| | | (32,609) | (Enillion)/colledion ar sail tybiaethau actiwaraidd ar asedau/(rhwymedigaethau) pensiwn (nodyn 23) | | | 30,168 |
| | | 0 | Diffyg ar ailbrisio asedau sydd heb fod yn gyfredol | | | 141 |
| | | (32,609) | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | 30,309 |
| | | **(13,522)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | **46,967** |

## Mantolen fel ar 31 Mawrth 2015

| 31 Mawrth 2014 £000 | | 31 Mawrth 2015 £000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 75,090 | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 74,129 | 12 |
| 166 | Asedau Anghyffyrddadwy | 193 | 11 |
| 356 | Asedau a gedwir ar werth | 0 | 12 |
| 105 | Dyledwyr Tymor Hir | 148 | 16 |
| **75,717** | **Asedau Tymor Hir** | **74,470** | |
| 399 | Rhestri Eiddo | 400 | 15 |
| 7,164 | Dyledwyr Tymor Byr | 12,525 | 16 |
| 1,928 | Arian Parod a'r Hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod | 1,826 | 17 |
| **9,491** | **Asedau Cyfredol** | **14,751** | |
| (314) | Benthyca Tymor Byr | (308) | 13 |
| (5,225) | Credydwyr Tymor Byr | (6,383) | 18 |
| (923) | Rhwymedigaethau Tymor Byr Eraill | (872) | 37 |
| **(6,462)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **(7,563)** | |
| (12,026) | Benthyca Tymor Hir | (15,246) | 13 |
| (4,989) | Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill | (5,430) | 37 |
| (406,339) | Rhwymedigaeth sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio | (452,557) | 39 |
| **(423,354)** | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | **(473,233)** | |
| **(344,608)** | **Rhwymedigaethau Net** | **(391,575)** | |
| 7,865 | Cronfeydd Defnyddiadwy | 9,168 | 19 |
| (352,473) | Cronfeydd Annefnyddiadwy | (400,743) | 20 |
| **(344,608)** | **Cyfanswm Cronfeydd** | **(391,575)** | |

## Datganiad Llif Arian fel ar 31 Mawrth 2015

| 2013/14 £000 | | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| 19,087 | (Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 16,658 |
| 8,673 | Addasiadau i warged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau heb fod yn rhai arian parod | (45,559) |
| (32,609) | Addasiadau ar gyfer eitemau wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido | 30,309 |
| (4,849) | (Mewn)lif arian net o Weithgareddau Gweithredu | 1,408 |
| 3,791 | Gweithgareddau Buddsoddi (nodyn 26) | 2,298 |
| (76) | Gweithgareddau Cyllido (nodyn 26) | (3,604) |
| (1,134) | (Cynnydd) neu ostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 102 |
| (794) | Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | (1,928) |
| (1,928) | **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | (1,826) |

# NODIADAU I’R DATGANIADAU ARIANNOL

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

### CYFFREDINOL

Mae’r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 a’i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn sef 31 Mawrth 2015. Mae gofyn i’r Awdurdod baratoi Datganiad Blynyddol o Gyfrifon yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005; mae’r Rheoliadau hyn yn mynnu bod y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon yn cael ei baratoi’n unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae’r arferion hyn yn bennaf yn cynnwys y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014/15 (y Cod) a Chod Ymarfer Adrodd Gwasanaethau 2014/15 (SeRCOP), a gynhelir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a’r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 12 o Ddeddf 2003.

Cost hanesyddol yn bennaf yw’r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon, wedi’i haddasu yn ôl yr ailbrisiad o rai categorïau o offerynnau ariannol ac asedau nad ydynt yn rhai cyfredol.

### INCWM A GWARIANT

#### Refeniw

Yn y cyfrifon refeniw, rhoir cyfrif o incwm a gwariant, heb TAW, yn y flwyddyn y maent yn codi ynddi, nid dim ond pan gaiff taliadau arian eu gwneud neu eu cael. Yn benodol:

- Rhoir cyfrif o ffioedd, taliadau a rhenti sy’n ddyledus gan gwsmeriaid fel incwm ar y dyddiad y mae’r Awdurdod yn darparu’r nwyddau neu’r gwasanaethau perthnasol.

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad y bydd cyflenwadau’n cyrraedd a dyddiad eu treulio, cânt eu cario fel stociau ar y Fantolen.

- Codir am waith fel gwariant pan gaiff ei gwblhau, a chyn hynny mae’n cael ei gario fel gwaith sy’n mynd rhagddo ar y Fantolen.

- Rhoir cyfrif o log sy’n daladwy ar fenthyciadau ac sy’n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na’r llifoedd arian sydd wedi’u gosod neu eu pennu gan y contract.

- Lle mae incwm a gwariant wedi’u cydnabod ond nid oes arian wedi’i gael na’i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Os oes amheuaeth ynghylch setlo dyledion, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd efallai’n cael ei gasglu.

### ARIAN PAROD A’R HYN SY’N GYFWERTH AG ARIAN PAROD

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw a blaendaliadau gyda sefydliadau ariannol yn ad-daladwy heb gost ar rybudd heb fod yn fwy na 24 awr.

Buddsoddiadau yw'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod, sy'n aeddfedu heb fod yn fwy na thri mis o'r dyddiad caffael ac sy'n hawdd eu trosi'n symiau hysbys o arian gyda risg ansylweddol o newid gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod heb ystyried gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac maent yn rhan annatod o reoli arian yr Awdurdod.

**COSTAU AR REFENIW AM ASEDAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL**

Darperir dibrisiad ar gyfer cerbydau ar sail llinell syth, a chaffaeliadau'n cael eu dibrisio am y tro cyntaf yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. Mae cerbydau a ariennir drwy brydles gyllidol yn cael eu dibrisio am flwyddyn gron ym mlwyddyn eu caffael. Mae adeiladau wedi'u dibrisio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau, fel y cyflenwir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Codir dibrisiad ar yr adrannau gwasanaeth yn y cyfrif incwm a gwariant cyfunol. Caiff hwn ei wrthdroi ym Malans y Gronfa Gyffredinol fel nad oes unrhyw effaith ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol.

Nid oes gofyn i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu amorteiddio na cholledion lleihad, ailbrisio a dibrisio. Fodd bynnag, mae gofyn iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at ostwng ei ofyniad benthyca cyffredinol. Mae amorteiddio a cholledion lleihad, ailbrisio a dibrisio yn cael eu disodli felly gan y cyfraniad o Falansau Cronfa Gyffredinol (MRP) drwy fodd trafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

**BUDDION I GYFLOGEION**

**Buddion sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth**

Caiff cyflogau a thaliadau cysylltiedig â chyflogaeth eu cydnabod yn ystod y cyfnod y ceir y gwasanaeth gan gyflogeion. Mae cost hawl i wyliau blynyddol a enillwyd ond sydd heb ei gymryd gan gyflogeion ar ddiwedd y cyfnod yn cael ei chydnabod yn y datganiadau ariannol.

**Buddion Terfynu**

Symiau yw buddion terfynu sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol normal neu benderfyniad swyddog i dderbyn dileu swydd yn wirfoddol yn gyfnewid am y buddion hynny, ac fe'u codir ar sail croniadau ar y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, ar y llinell Costau Heb eu Dosbarthu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a hynny naill ai pan nad all yr awdurdod dynnu'n ôl gynnig y buddion hynny rhagor neu pan fydd yr awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro, p'un bynnag sydd gynharaf.

Lle mae buddion terfynu'n golygu ychwanegu at bensiynau, mae darpariaethau statudol yn mynnu mai'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, mae neilltuadau arian yn ofynnol i'r Gronfa Bensiwn ac ohoni er mwyn gwaredu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu sy'n ychwanegu

at bensiwn, gan eu disodli â debydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a'r pensiynwyr.

## BUDDION ÔL-GYFLOGAETH

### Pensiynau

Mae'r Awdurdod yn cyfranogi mewn dau wahanol gynllun pensiwn, sy'n bodloni anghenion gwahanol grwpiau o gyflogai. Dyma'r cynlluniau:

1. **<u>Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân</u>**

   Mae cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio, gan olygu nad oes dim asedau buddsoddi'n cael eu cronni i fodloni rhwymedigaethau'r pensiynau a bod rhaid cynhyrchu arian i dalu'r taliadau pensiwn gwirioneddol pan fyddant yn ddyledus. Mae cyfraniadau cyflogeion a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy wedi'i osod yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac mae hyn yn destun ailbrisiad teirblwydd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

   Caiff y gronfa bensiwn ei thrin fel datganiad incwm a gwariant ar wahân yn y Datganiad o Gyfrifon a chaiff ei chlustnodi i sicrhau eglurder cyfrifyddu; gweler nodiadau 23, 39 a 'Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân' ar dudalen 82 am ragor o fanylion. Drwy'r gronfa bensiwn y mae'r Awdurdod yn bodloni ei gyfrifoldeb am dalu pensiynau swyddogion sydd wedi ymddeol, eu goroeswyr ac eraill sy'n gymwys am fuddion dan y cynllun.

   Datgelir amcangyfrif o rwymedigaeth tymor hir yr Awdurdod Tân ac Achub i dalu'r costau hyn gan nodyn i'r cyfrifon fel sy'n ofynnol gan IAS 19.

2. **<u>Staff Cymorth ac Ystafell Reoli</u>**

   Cynllun a ariennir yw hwn, a'r pensiynau'n cael eu talu o'r cronfeydd buddsoddi sylfaenol a reolir drwy Gronfa Bensiwn Dyfed gan Gyngor Sir Caerfyrddin sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Actiwarïaid sy'n pennu cyfradd gyfrannu'r cyflogwr. Mae costau pellach, sy'n codi o ran pensiynau penodol a dalir i gyflogeion sydd wedi ymddeol, yn cael eu talu ar sail heb ei hariannu. Gweler nodyn 40 am ragor o fanylion.

## DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r digwyddiadau hynny, rhai ffafriol ac anffafriol, a geir rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad.

a) y rheini sy'n darparu tystiolaeth o amodau a fodolai ar ddiwedd y cyfnod adrodd (gan addasu digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd), a
b) y rheini sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd (digwyddiadau nad ydynt yn addasu ar ôl y cyfnod adrodd).

## EITEMAU EITHRIADOL

Pan fydd eitemau incwm a thraul yn sylweddol, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r

cyfrifon, gan ddibynnu pa mor arwyddocaol yw'r eitemau er mwyn deall perfformiad ariannol yr Awdurdod.

**ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall perthnasol. Rhoir cyfrif o newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu yn arfaethedig, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd yn y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt, ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu heblaw pan fyddant yn ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Lle gwneir newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir fel arall) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

**OFFERYNNAU ARIANNOL**

Diffinnir Offeryn Ariannol fel 'unrhyw gontract sy'n achosi ased ariannol o un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti o un arall'. Caiff rhwymedigaethau ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg a'u cario yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae'r llog blynyddol sy'n cael ei dalu a'i gael yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad neu'r buddsoddiad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau sydd gan yr Awdurdod, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n ddyledus yn ogystal ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

**BUDDSODDIADAU**

Dangosir buddsoddiadau yn y Fantolen yn ôl eu cost i'r Awdurdod a chânt eu heitemeiddio mewn nodyn ar wahân.

**TROSI ARIAN TRAMOR**

Mae mwyafrif trafodion yr Awdurdod yn digwydd mewn sterling. Lle mae'r Awdurdod wedi cymryd rhan mewn trafodion wedi'u henwi mewn arian tramor, caiff y trafodion eu trosi i sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar y dyddiad yr oedd y trafodion yn effeithiol.

**GRANTIAU A CHYFRANIADAU LLYWODRAETH**

Ni waeth a ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-daliadau, caiff grantiau llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti eu cydnabod fel incwm ar y dyddiad y mae'r Awdurdod yn bodloni amodau'r hawl i'r grant/cyfraniad, mae sicrwydd rhesymol y bydd yr arian yn dod, ac mae'r gwariant y rhoddwyd y grant ar ei gyfer naill ai wedi digwydd neu mae'n rhesymol o debygol o ddigwydd. Caiff grantiau refeniw eu cydweddu mewn cyfrifon refeniw gwasanaeth â gwariant y gwasanaeth y maent yn berthnasol iddo. Caiff grantiau i dalu am wariant cyffredinol eu credydu ar droed y cyfrif incwm a gwariant ar ôl Gwariant Gweithredu Net.

**RHESTRI EIDDO A CHONTRACTAU TYMOR HIR**

Caiff rhestri eiddo eu cynnwys yn y fantolen yn ôl cost neu Werth Gwireddadwy Net, p'un bynnag sydd isaf. Caiff rhestri cynnwys cost eu neilltuo gan ddefnyddio'r dull 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan'.

**PRYDLESAU**

**Prydlesau cyllidol**

Lle mae bron holl risgiau a gwobrau perchenogaeth ar ased ar brydles yn cael eu hysgwyddo gan yr Awdurdod, cofnodir yr ased fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar a chofnodir rhwymedigaeth gyfatebol. Caiff y ddau eu cydnabod yn ôl gwerth teg yr ased neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf, wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n ymhlyg yn y brydles, pa werth bynnag sydd isaf. Y gyfradd llog ymhlyg yw'r gyfradd honno sy'n cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Caiff yr ased a'r rhwymedigaeth eu cydnabod ar ddechrau'r brydles, a chânt eu dad-gydnabod pan gaiff y rhwymedigaeth ei chlirio neu ei chanslo neu pan ddaw i ben. Rhannir y rhent blynyddol rhwng ad-dalu'r rhwymedigaeth a chost gyllid. Cyfrifir y gost gyllid flynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg i'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus a chaiff ei chodi ar Gostau Cyllid yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Prydlesau Gweithredu**

Lle mae asedau ar gael i'w defnyddio dan drefniadau prydlesu gweithredol, codir y rhenti sy'n daladwy ar y cyfrif gwasanaeth priodol ar sail llinell syth, ni waeth beth yw'r trefniadau talu. Am nad yw'r Awdurdod yn berchen ar yr asedau hyn, nid ydynt yn ymddangos yn y Fantolen. Mae'r rhwymedigaeth i dalu taliadau rhent yn y dyfodol yn cael ei heithrio yn yr un modd, ond mae nodyn ar wahân yn cael ei gysylltu â'r Fantolen.

**GORBENION A GWASANAETHAU CYMORTH**

Codir am gostau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar y rheini sy'n elwa ar y cyflenwad neu'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio *Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaethau 2014/15* (SeRCOP) CIPFA. Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr – rhannir cost lawn gorbenion a gwasanaethau cymorth rhwng defnyddwyr yn ôl maint y buddion a gafwyd, ac eithrio:

- Craidd Corfforaethol a Democratig – costau sy'n berthnasol i statws yr Awdurdod yn sefydliad democratig, amlswyddogaethol.
- Costau Heb eu Dosbarthu – cost buddion dewisol a ddyfarnir i gyflogeion sy'n ymddeol a cholledion lleihad gwerth y gellir eu codi ar Asedau a Gedwir ar Werth.

Diffinnir y ddau gategori cost hyn yn SeRCOP a rhoddir cyfrif ohonynt fel penawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Gost Gwasanaethau.

## EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

***Cydnabyddiaeth***

Troir Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn gyfalaf yn yr amodau canlynol:

- lle cânt eu cadw i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;
- lle mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod, neu bydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu iddo o bosib;
- lle disgwylir iddynt gael eu defnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol;
- lle gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy;
- lle mae cost yr ased unigol yn £5,000 o leiaf;
- lle mae'r eitemau'n ffurfio grŵp o asedau sydd gyda'i gilydd yn costio o leiaf £5,000, lle mae'r asedau'n swyddogaethol gyd-ddibynnol, lle mae ganddynt yr un dyddiadau prynu'n fras, lle rhagwelir y bydd ganddynt yr un dyddiadau gwerthu, a lle maent o dan yr un rheolaeth; a
- lle mae'r eitemau'n rhan o'r gost gychwynnol o baratoi a sefydlu adeilad newydd neu ailwampio gorsaf neu swyddfeydd, ni waeth beth yw eu cost unigol neu gost gyfunol. Lle mae ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o gydrannau a chanddynt oes ased wahanol iawn e.e. peiriannau a chyfarpar, caiff y cydrannau hyn eu trin fel asedau ar wahân a'u dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol eu hunain.

**Oes Economaidd Ddefnyddiol Asedau**

Bydd yr asedau'n cael eu cadw gan y gwasanaeth yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol a byddant yn yr ystodau canlynol:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 15-80 mlynedd |
| Seilwaith | 5-40 mlynedd |
| Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar | 3-15 mlynedd |
| Asedau Anghyffyrddadwy | 3-15 mlynedd |

**Mesur**

***Prisio***

Mae'r holl asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael eu mesur i ddechrau ar gost, gan gynrychioli'r costau sy'n uniongyrchol briodoladwy i gaffael neu adeiladu'r ased a dod ag ef i'r lleoliad neu'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriedir gan y rheolwyr.

Mesurir pob ased wedyn yn ôl gwerth teg.

Caiff asedau tir ac eiddo eu prisio bob 5 mlynedd. Cynhelir yr ailbrisiadau bob 5 mlynedd ac unrhyw rai interim gan brisiwr cymwysedig proffesiynol yn unol â Chanllaw Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cynhelir y prisiadau ar sail Ased Cyfwerth Modern fel sy'n ofynnol gan Drysorlys EM. Cynhelir adolygiadau gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf priodol sydd ar gael ar ddyddiad yr adolygiad. Cynhaliwyd ailbrisiad fel ar 31 Mawrth 2011.

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu prisio yn ôl eu cost gyfredol. Cânt eu prisio wedyn fel rhan o'r prisiadau bob pum mlynedd.

***Gwariant dilynol***
Lle mae gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, ychwanegir y gost sy'n uniongyrchol briodoladwy at werth cario'r ased. Os yw'r gwariant dilynol yn adfer yr ased yn unig i'r fanyleb a dybiwyd gan ei oes ddefnyddiol economaidd, codir y gwariant ar dreuliau gweithredu.

**Dibrisio**
Caiff eitemau eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio dros weddill eu hoes economaidd ddefnyddiol mewn modd sy'n gyson â threulio buddion cyflenwi gwasanaeth neu economaidd.

Ystyrir bod gan dir rhydd-ddaliadol oes ddiddiwedd ac ni chaiff ei ddibrisio.
Mae oes ddefnyddiol economaidd cyfarpar ac asedau fflyd yn amrywio, ond mae'n perthyn i'r ystod 3-15 mlynedd y mae'r tâl dibrisio blynyddol yn seiliedig arni. Cyfrifir pob dibrisiad ar sail "llinell syth".

Os caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu hailddosbarthu'n rhai 'Wedi'u Cadw ar Werth', rhoir y gorau i'w dibrisio wedyn. Nid yw asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio nes dechrau defnyddio'r ased.

**Cyfrifyddu Cydrannol**
Mae cydran o eiddo, peiriannau a chyfarpar yn eitem sydd â chost sy'n sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased. Dylid dibrisio'r cydrannau'n unigol dros eu hoes ddefnyddiol. Fodd bynnag, ers newid i'r Cod, ni chymhwysir cyfrifyddu cydrannol heblaw pan gaiff cydran ei disodli neu ei gwella'n rhannol, a bod yr hen gydran wedi'i dad-gydnabod.

**Ailbrisio a lleihad gwerth**
Mae cynnydd mewn gwerthoedd ased sy'n codi o ailbrisiadau yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio, heblaw lle maent yn gwrthdroi lleihad a gafodd ei gydnabod o'r blaen mewn treuliau gweithredu, ac i'r graddau y maent yn gwneud hynny, ac os felly cânt eu cydnabod mewn incwm gweithredu.

Codir am ostyngiadau mewn gwerthoedd ased a lleihadau ar y gronfa ailbrisio i'r graddau bod balans ar gael ar gyfer yr ased dan sylw, a chodir amdanynt wedi hynny ar dreuliau gweithredu.

Rhoir gwybod am enillion a cholledion sydd wedi'u cydnabod yn y gronfa ailbrisio yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel eitem o 'incwm cynhwysfawr arall'.

**GWERTHU ASEDAU SEFYDLOG**
Mae derbyniadau yn sgil gwerthu asedau sefydlog yn creu incwm a elwir yn Dderbyniadau Cyfalaf. Caiff y rhain eu cadw mewn cronfeydd ac yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf yn disgwyl eu cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i glirio dyled benthyciad.

**DARPARIAETHAU**
Gwneir darpariaethau pan gafwyd digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth i'r Awdurdod sydd, yn ôl pob tebyg, yn mynnu setliad drwy drosglwyddo buddion economaidd, ond lle mae amseru'r trosglwyddo'n ansicr.

Codir am ddarpariaethau ar y cyfrif refeniw priodol pan ddaw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau o'r setliad tebygol. Pan wneir taliadau yn y pen draw, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a sefydlwyd yn y fantolen. Adolygir setliadau a amcangyfrifwyd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – pan ddaw'n fwy tebygol nag annhebygol na fydd gofyn trosglwyddo buddion economaidd, caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu'n ôl i'r cyfrif refeniw perthnasol.

**RHWYMEDIGAETHAU AMODOL**
Yn ôl IAS 37, rhwymedigaethau amodol yw naill ai:

- rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau blaenorol ac y cadarnheir ei bodolaeth dim ond pan fydd un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol yn digwydd, a'r rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod; neu
- rwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau blaenorol ond sydd heb ei chydnabod oherwydd

  a) nid yw'n debygol y bydd gofyn trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, neu
  b) ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

Lle ceir rhwymedigaeth amodol, ni fyddai'n cael ei chydnabod yn y cyfrifon fel eitem o wariant, ond byddai'n cael ei datgelu mewn nodyn i'r fantolen a fyddai'n disgrifio natur y rhwymedigaeth amodol a, lle'n ymarferol, amcangyfrif o'i heffaith ariannol a syniad o'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â swm unrhyw all-lif.

**CRONFEYDD**
Mae'r Awdurdod yn cadw cronfeydd er mwyn talu gwariant y dyfodol. Datgelir y rhain yn y fantolen ac eglurir eu dibenion yn y nodiadau i'r fantolen.

**TRETH AR WERTH**
Ad-dalir yr awdurdod am TAW a gafwyd ac mae'r cyfrifon refeniw felly wedi'u paratoi heb gynnwys y dreth hon.

**ASEDAU ANGHYFFYRDDADWY**
Mae gwariant ar asedau nad ydynt yn ariannol, nad oes ganddynt sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol (e.e. trwyddedau meddalwedd), yn cael ei droi'n gyfalaf pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anghyffyrddadwy i'r Awdurdod.

Caiff asedau anghyffyrddadwy a gynhyrchwyd yn fewnol eu troi'n gyfalaf lle bodlonir y meini prawf cydnabod. Dyma'r meini prawf: rhaid ei bod yn bosibl gwahanu'r ased oddi wrth yr endid, rhaid i'r endid reoli'r ased, rhaid bod budd economaidd yn y

dyfodol o'r ased, rhaid ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd yn llifo i'r endid, a rhaid y gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy. Bydd yr ased anghyffyrddadwy'n cael ei fesur i ddechrau ar gost, codir pob ailbrisiad ar y gronfa ailbrisio i ddechrau, ac nid oes unrhyw oes ddefnyddiol fwyaf i'r ased.

## 2. DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH GYMHWYSO POLISÏAU CYFRIFYDDU

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 35-42, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud dyfarniadau penodol am drafodion cymhleth neu'r rheini sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y dyfarniadau allweddol yn y datganiad o gyfrifon yw:-

- Bod llawer iawn o ansicrwydd am lefelau cyllid yn y dyfodol i Lywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi pennu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigonol eto i awgrymu y gallai'r angen i leihau lefelau darparu gwasanaeth amharu ar asedau'r Awdurdod.

## 3. TYBIAETHAU A WNAED AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O ANSICRWYDD AMCANGYFRIF

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau a amcangyfrifwyd sy'n seiliedig ar dybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, am nad oes modd pennu balansau'n sicr, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol iawn i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Dyma'r eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2015 y mae risg sylweddol o addasu sylweddol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os bydd y Canlyniadau Gwirioneddol yn wahanol i'r Tybiaethau |
|---|---|---|
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | Caiff asedau eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar dybiaethau am lefel y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a fydd yn cael ei wneud mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni'n ei gwneud yn ansicr y bydd yr Awdurdod yn gallu cynnal ei wariant cyfredol ar atgyweirio a chynnal a chadw, gan fwrw amheuaeth felly ar yr oes ddefnyddiol a neilltuwyd i asedau. | Os gostyngir oes ddefnyddiol asedau, mae dibrisiad yn cynyddu ac mae swm cario'r asedau'n gostwng.<br><br>Amcangyfrifir y byddai'r gost ddibrisio flynyddol ar gyfer adeiladau'n cynyddu £15k am bob blwyddyn y byddai'n rhaid gostwng oesau defnyddiol. |
| Rhwymedigaeth Pensiwn | Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth mewn perthynas â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, ar ba gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac, ar gyfer y cynllun pensiwn llywodraeth leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Cyflogir Actiwarïaid Ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ar y tybiaethau i'w cymhwyso. | Gall newidiadau cymharol fach yn y tybiaethau a wneir gael effaith sylweddol ar rwymedigaeth net y pensiwn. Ni ddaw'r rhwymedigaeth pensiwn net a ddangosir yn y fantolen yn daladwy tan gyfnod ymddeol y cyflogeion cyfredol a'r cyflogeion sydd wedi ymddeol, felly gall addasiadau i'r rhwymedigaeth gael eu gwasgaru dros nifer o flynyddoedd drwy newidiadau mewn cyfraniadau cyflogai a chyflogwr. Mae cynyddu cyfraniadau'r cyflogwr yn cael effaith uniongyrchol ar y gyllideb. |

## 4. SAFONAU CYFRIFYDDU A GYHOEDDWYD OND SYDD HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Safonau Cyfrifyddu canlynol wedi'u cyhoeddi gan y Corff Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ond nid ydynt wedi'u mabwysiadu eto:

*IFRS 13 Gwerth teg* – Mae'r safon hon yn diffinio gwerth teg, yn gosod un fframwaith ar gyfer mesur gwerth teg ac yn gofyn am ddatgeliadau am fesur gwerth teg. Oherwydd y trafodaethau parhaus am y ffordd y dylid cymhwyso'r safon hon i'r sector cyhoeddus, mae Bwrdd Cod Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC wedi penderfynu oedi mabwysiadu'r safon hon tan 2015/16.

*Gwelliannau Blynyddol i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)* – Y materion sydd wedi'u cynnwys yw:
IFRS 1: Ystyr Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol effeithiol;
IFRS 3: Eithriadau cwmpas ar gyfer mentrau ar y cyd;
IFRS 13: Eithriad portffolio; ac
IAS 40: Egluro cydberthynas IFRS 3 Cyfuniadau Busnes ac IAS 40 Eiddo Buddsoddi wrth ddosbarthu eiddo fel eiddo buddsoddi neu eiddo â pherchennog-ddeiliad.

Ni fydd y gwelliannau hyn yn cael effaith o gwbl ar y datganiadau ariannol.

*IFRIC 21 Ardollau* – Mae'r safon hon yn ymdrin ag ardollau, heblaw treth incwm, a godir gan y Llywodraeth. Mae'n datgan y dylai'r rhwymedigaeth i dalu ardoll gael ei chydnabod yn y cyfrifon ar ddyddiad y digwyddiad sy'n sbarduno'r rhwymedigaeth i dalu'r ardoll. Nid oes unrhyw ardollau felly'n daladwy gan yr Awdurdod.

## 5. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon i'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 21 Medi 2015. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau ariannol. Lle'r oedd digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2015, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i adlewyrchu effaith yr wybodaeth hon.

## 6. ADDASIADAU RHWNG Y SAIL CYFRIFO A'R SAIL CYLLIDO DAN REOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn disgrifio'r addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabuwyd gan yr Awdurdod yn y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i'r adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw'r dyfodol.

## Addasiadau rhwng y sail cyfrifo a'r sail cyllido dan reoliadau

| 2013/14 | | | | | 2014/15 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans y Gronfa Gyffredinol £000** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000** | **Cyfanswm y Gronfa Ddefnyddiadwy £000** | **Symudiadau mewn Cronfeydd Annefnyddiadwy £000** | | **Balans y Gronfa Gyffredinol £000** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000** | **Cyfanswm y Gronfa Ddefnyddiadwy £000** | **Symudiadau mewn Cronfeydd Annefnyddiadwy £000** |
| | | | | **ADDASIADAU SY'N YMWNEUD YN BENNAF Â'R CYFRIF ADDASU CYFALAF:** | | | | |
| | | | | **Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| **3,731** | **0** | **3,731** | **(3,731)** | Taliadau am ddibrisiad a lleihad gwerth asedau nad ydynt yn rhai cyfredol | **3,670** | **0** | **3,670** | **(3,670)** |
| **8** | **0** | **8** | **(8)** | Amorteiddio asedau anghyffyrddadwy | **21** | **0** | **21** | **(21)** |
| **(69)** | **0** | **(69)** | **69** | Cyfraniadau a grantiau cyfalaf a gymhwyswyd | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **0** | **0** | **0** | **0** | Cyllid refeniw uniongyrchol | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | **Mewnosod eitemau heb eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:** | | | | |
| **(1,829)** | **0** | **(1,829)** | **1,829** | Darpariaeth statudol am gyllido Buddsoddiad Cyfalaf | **(2,286)** | **0** | **(2,286)** | **2,286** |
| | | | | **ADDASIADAU SY'N YMWNEUD YN BENNAF Â'R GRONFA DERBYNIADAU CYFALAF:** | | | | |
| **0** | **0** | **0** | **0** | Trosglwyddo enillion gwerthiant arian wedi'u credydu fel rhan o'r enillion/colledion ar werthu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **(29)** | **531** | **502** | **(502)** |
| | | | | **ADDASIADAU SY'N YMWNEUD YN BENNAF Â'R GRONFA BENSIWN:** | | | | |
| **31,988** | **0** | **31,988** | **(31,988)** | Gwrthdroi eitemau sy'n gysylltiedig â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **31,132** | **0** | **31,132** | **(31,132)** |
| **(14,180)** | **0** | **(14,180)** | **14,180** | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | **(15,082)** | **0** | **(15,082)** | **15,082** |
| | | | | **ADDASIAD SY'N YMWNEUD YN BENNAF Â'R CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONEDIG:** | | | | |
| **(57)** | **0** | **(57)** | **57** | Y gwahaniaeth rhwng y tâl swyddogion a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r tâl y gellir ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | **4** | **0** | **4** | **(4)** |
| **19,592** | **0** | **19,592** | **(19,592)** | **CYFANSWM ADDASIADAU:** | **17,430** | **531** | **17,961** | **(17,961)** |

## 7. TROSGLWYDDIADAU I GRONFEYDD WEDI'U CLUSTNODI AC O GRONFEYDD WEDI'U CLUSTNODI (mwy o fanylion yn nodyn 19)

| **Balans ar 1 Ebrill 2013 £000** | Trosglwyddiadau allan 2013/14 £000 | Trosglwyddiadau i mewn 2013/14 £000 | **Balans ar 31 Mawrth 2014 £000** | | Trosglwyddiadau Allan 2014/15 £000 | Trosglwyddiadau i mewn 2014/15 £000 | **Balans ar 31 Mawrth 2015 £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **620** | 538 | 178 | **260** | Newid Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar | 260 | 335 | **335** |
| **200** | 0 | 1,200 | **1,400** | Cronfa Buddsoddi i Arbed | 0 | 300 | **1,700** |
| **41** | 1 | 1 | **41** | Prosiectau Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd | 1 | 1 | **41** |
| **1,366** | 215 | 220 | **1,371** | Cronfa Rheoli Risg | 557 | 336 | **1,150** |
| **50** | 0 | 0 | **50** | Prosiectau Newid Proses a Gwasanaeth Ymgynghori | 0 | 153 | **203** |
| **215** | 105 | 0 | **110** | Hyfforddiant Gweithredol | 0 | 20 | **130** |
| **772** | 236 | 245 | **781** | Moderneiddio a Datblygu Meddalwedd | 143 | 120 | **758** |
| **1,571** | 286 | 141 | **1,426** | Rheoli Newid – Cyflogeion a Phensiynau | 253 | 500 | **1,673** |
| **1,198** | 560 | 190 | **828** | Rheoli Newid – Adeiladau ac Addasiadau | 1 | 17 | **844** |
| **618** | 316 | 0 | **302** | Cronfa Digwyddiadau Mawr/Gwarchod y Gyllideb | 48 | 69 | **323** |
| **1** | 0 | 7 | **8** | Incwm Amrywiol wedi'i Glustnodi | 0 | 184 | **192** |
| **540** | 280 | 740 | **1,000** | Cronfa Hafalu Ardollau | 865 | 865 | **1,000** |
| **120** | 0 | 120 | **240** | Cronfa Airwave | 240 | 240 | **240** |
| **7,312** | **2,537** | **3,042** | **7,817** | **Cyfanswm** | **2,368** | **3,140** | **8,589** |

## 8. INCWM A GWARIANT GWEITHREDU ARALL

| 2013/14 £000 | | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| 0 | (Elw)/Colled ar werthu asedau nad ydynt yn rhai cyfredol | (10) |
| 0 | Diffyg ar ailbrisio asedau nad ydynt yn rhai cyfredol | 149 |
| **0** | | **139** |

## 9. INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

| 2013/14 £000 | | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| 213 | Llog a dalwyd ar Brydlesau Cyllidol | 288 |
| 517 | Llog a dalwyd ar Fenthyciadau | 496 |
| 18,069 | Cost Llog Pensiwn Net | 17,827 |
| (9) | Llog a gafwyd o fuddsoddiad | (5) |
| **18,790** | | **18,606** |

## 10. TRETHIANT AC INCYMAU GRANT AMHENODOL

| 2013/14 £000 | | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| (52) | Rhoddion a Chyfraniadau Cyfalaf a gafwyd | 0 |
| (43,596) | Ardollau gan yr Awdurdod Cyfansoddol | (42,917) |
| **(43,648)** | | **(42,917)** |

## 11. ASEDAU ANGHYFFYRDDADWY

| **Trwyddedau Meddalwedd a Brynwyd 2013/14 £'000** | | **Trwyddedau Meddalwedd a Brynwyd 2014/15 £'000** |
|---|---|---|
| | **Gwerth Gros ar Bapur** | |
| 134 | Balans agoriadol ar 1 Ebrill | 222 |
| 88 | Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 48 |
| 222 | Balans terfynol ar 31 Mawrth | 270 |
| | **Amorteiddiad Cronedig** | |
| (49) | Ar 1 Ebrill | (56) |
| (7) | Amorteiddiad yn ystod y flwyddyn | (21) |
| (56) | Balans terfynol ar 31 Mawrth | (77) |
| | **Gwerth Net ar Bapur** | |
| 85 | Balans agoriadol ar 1 Ebrill | 166 |
| 166 | Balans terfynol ar 31 Mawrth | 193 |

## 12. PEIRIANNAU, EIDDO A CHYFARPAR

Dangosir isod y symudiad mewn prisio asedau sefydlog.

| **Asedau Sefydlog 2014/15** | **Tir ac Adeiladau £000** | **Seilwaith £000** | **Cerbydau a Chyfarpar £000** | **Asedau a Gedwir ar Werth £000** | **Asedau Dros Ben £000** | **Anweithredol £000** | **CYFANSWM £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Gros ar Bapur** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 70,235 | 317 | 27,583 | 356 | 0 | 0 | 98,491 |
| Ychwanegiadau | 873 | 0 | 2,182 | 17 | 0 | 0 | 3,072 |
| Colled ar ailbrisio | (290) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (290) |
| Gwerthiannau | (145) | 0 | (733) | (373) | 0 | 0 | (1,251) |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **70,673** | **317** | **29,032** | **0** | **0** | **0** | **100,022** |
| **Dibrisiad Cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | (3,776) | (67) | (19,202) | 0 | 0 | 0 | (23,045) |
| Dibrisiad am y flwyddyn | (1,392) | (9) | (2,269) | 0 | 0 | 0 | (3,670) |
| Ailbrisiad | 89 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 89 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 733 | 0 | 0 | 0 | 733 |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **(5,079)** | **(76)** | **(20,738)** | **0** | **0** | **0** | **(25,893)** |
| **Gwerthoedd Net ar Bapur** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2014** | **66,459** | **250** | **8,381** | **356** | **0** | **0** | **75,446** |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **65,594** | **241** | **8,294** | **0** | **0** | **0** | **74,129** |

Mae'r £145k o werthu tir ac adeiladau yn gysylltiedig â gwerthu adeilad yn Llandrindod, a gafodd ei ailbrisio i'r swm hwnnw cyn cytuno ar werthiant.

| **Asedau Sefydlog 2013/14** | **Tir ac Adeiladau**<br><br>**£000** | **Seilwaith**<br><br>**£000** | **Cerbydau a Chyfarpar**<br><br>**£000** | **Asedau a Gedwir ar Werth**<br>**£000** | **Asedau Dros Ben**<br><br>**£000** | **Anweithredol**<br><br>**£000** | **CYFANSWM**<br><br>**£000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Gros ar Bapur** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 68,224 | 305 | 28,590 | 0 | 425 | 0 | 97,544 |
| Ychwanegiadau | 2,011 | 12 | 1,679 | 1 | 0 | 0 | 3,703 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | (2,686) | 0 | 0 | 0 | (2,686) |
| Lleihad | 0 | 0 | 0 | (70) | 0 | 0 | (70) |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu | 0 | 0 | 0 | 425 | (425) | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **70,235** | **317** | **27,583** | **356** | **0** | **0** | **98,491** |
| **Dibrisiad Cronedig** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | (2,428) | (60) | (19,583) | 0 | 0 | 0 | (22,071) |
| Dibrisiad am y flwyddyn | (1,348) | (7) | (2,305) | 0 | 0 | 0 | (3,660) |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 2,686 | 0 | 0 | 0 | 2,686 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **(3,776)** | **(67)** | **(19,202)** | **0** | **0** | **0** | **(23,045)** |
| **Gwerthoedd Net ar Bapur** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2013** | **65,796** | **245** | **9,007** | **0** | **425** | **0** | **75,473** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **66,459** | **250** | **8,381** | **356** | **0** | **0** | **75,446** |

Mae'r lleihad yn gysylltiedig ag adeilad yn Nhreforys a gadwyd ar werth. Cafodd yr eiddo ei farchnata am £425k ond, er mwyn sicrhau ei werthu, bu'n rhaid lleihau'r gwerth i £356k.

## 13. OFFERYNNAU ARIANNOL

(1) Balansau Offerynnau Ariannol

Mae'r benthyciadau a'r buddsoddiadau a ddatgelwyd yn y Fantolen yn cynnwys y categorïau canlynol o offerynnau ariannol.

| | Tymor Hir | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 |
| **Benthyca** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Atebolrwydd ariannol (prif swm) | 12,026 | 15,246 | 284 | 280 |
| Llog Cronedig | 0 | 0 | 30 | 28 |
| | | | | |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **12,026** | **15,246** | **314** | **308** |
| | | | | |
| **Rhwymedigaeth prydles gyllidol** | **4,989** | **5,430** | **923** | **872** |
| **Credydwyr** | | | | |
| Rhwymedigaeth ariannol wedi'i chario ar swm contract | **0** | **0** | **5,225** | **6,383** |
| | | | | |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| **Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy (prif swm)** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy ar gost wedi'i hamorteiddio** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Cyfanswm dyledwyr** | **105** | **148** | **7,164** | **12,525** |

**Nodyn 1** – O dan ofynion cyfrifyddu, mae gwerth cario'r offeryn ariannol yn cael ei ddangos yn y fantolen sy'n cynnwys y prif swm a fenthycwyd neu y rhoddwyd ei fenthyg, ac addasiadau pellach ar gyfer costau toriad neu fenthyciadau llog fesul cam (a fesurir gan gyfrifiad cyfradd llog effeithiol) gan gynnwys llog cronedig. Dangosir llog cronedig ar wahân o dan asedau/rhwymedigaethau cyfredol lle mae'r taliadau/derbyniadau'n ddyledus cyn pen blwyddyn. I bob pwrpas, y gyfradd llog effeithiol yw'r llog cronedig sy'n dderbyniadwy o dan yr offeryn, wedi'i addasu ar gyfer amorteiddio unrhyw bremiymau neu ddisgowntiau a adlewyrchir yn y pris prynu.

**Nodyn 2** – Mesurwyd gwerth teg drwy:

- Gyfeirio'n uniongyrchol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithgar; a/neu
- Amcangyfrif gan ddefnyddio techneg brisio.

Lle nodir bod gwerth asedau wedi lleihau am ei bod yn debygol oherwydd digwyddiad blaenorol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan y contract yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei ddibrisio a gwneir tâl ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi adeg dad-gydnabod yr ased yn cael eu credydu/debydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Er nad oes angen cynhyrchu gwybodaeth fanylach, bydd angen gwybodaeth ychwanegol yn yr amgylchiadau canlynol, er eu bod yn annhebygol:

- ✓ Unrhyw symudiadau anarferol;
- ✓ Ailddosbarthu offerynnau;
- ✓ Dad-gydnabod offerynnau;
- ✓ Gwarant gyfochrog;
- ✓ Lwfans am golledion credyd; a
- ✓ Diffygdalu a thor-cytundeb.

Dangosir y terfynau aeddfedrwydd a osodwyd yn y Polisi Rheoli Trysorlys a phroffil aeddfedrwydd gwirioneddol benthyca yn y tabl canlynol:

| | Terfynau lleiaf cymeradwy | Terfynau mwyaf cymeradwy | Gwirioneddol 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2014 | Gwirioneddol 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 0% | 20% | 284 | 2.3% | 280 | 1.8% |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | 0% | 20% | 280 | 2.3% | 280 | 1.8% |
| Rhwng 2 a 5 mlynedd | 0% | 50% | 810 | 6.6% | 1,769 | 11.4% |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | 0% | 75% | 916 | 7.4% | 3,232 | 20.8% |
| Mwy na 10 mlynedd | 25% | 90% | 10,020 | 81.4% | 9,965 | 64.2% |
| Cyfanswm | | | 12,310 | 100.0% | 15,526 | 100.0% |

## (2) Enillion/Colledion Offerynnau Ariannol

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cael eu cyfansoddi fel a ganlyn:

| **Enillion a Cholledion Offerynnau Ariannol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 | | 2014/15 | |
| | Atebolrwydd Ariannol Atebolrwydd wedi'i fesur ar gost wedi'i hamorteiddio £000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy £000 | Atebolrwydd Ariannol Atebolrwydd wedi'i fesur ar gost wedi'i hamorteiddio £000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy £000 |
| Traul llog | (730) | 0 | (784) | 0 |
| **Cyfanswm traul mewn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(730)** | **0** | **(784)** | **0** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Incwm llog | 0 | 9 | 0 | 5 |
| **Cyfanswm Incwm mewn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **0** | **0** | **0** | **5** |
| **Elw/(colled) net am y flwyddyn** | **(730)** | **9** | **(784)** | **5** |

## 14. GWERTH TEG ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU WEDI'U CARIO AR GOST WEDI'I HAMORTEIDDIO

Mae rhwymedigaeth ariannol ac asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy yn cael eu cario ar y fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio (mewn asedau/rhwymedigaethau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/rhwymedigaethau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg drwy gyfrifo gwerth presennol llifoedd arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

- ✓ Ar gyfer benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan PWLB wedi'u cymhwyso i ddarparu'r gwerth teg o dan weithdrefnau clirio dyled PWLB;
- ✓ Ar gyfer benthyciadau sy'n dderbyniadwy, defnyddiwyd cyfraddau marchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- ✓ Ni chydnabyddir unrhyw ad-dalu cynnar na lleihad gwerth;
- ✓ Lle mae gan offeryn aeddfedrwydd o lai na 12 mis neu os yw'n fasnach neu'n swm arall sy'n dderbyniadwy, ystyrir mai'r gwerth teg yw'r swm cario neu'r swm ar y bil;
- ✓ Ystyrir mai gwerth teg masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy yw'r swm ar yr anfoneb neu'r bil.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifwyd:

| | **31 Mawrth 2014** | | **31 Mawrth 2015** | |
|---|---|---|---|---|
| **£000** | **Swm cario** | **Gwerth teg** | **Swm cario** | **Gwerth teg** |
| Dyled PWLB | 12,310 | 13,729 | 15,526 | 19,748 |
| Dyled heblaw dyled PWLB | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm dyled** | **12,310** | **13,729** | **15,526** | **19,748** |

Mae'r gwerth teg yn fwy na'r swm cario am fod portffolio o fenthyciadau'r Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog lle mae'r gyfradd llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau sydd ar gael am fenthyciadau tebyg yn y farchnad ar ddyddiad y fantolen.

## 15. RHESTRI EIDDO

Dangosir isod ddadansoddiad o’r stociau a gedwir a’r symudiadau yn ystod y flwyddyn fel ar 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2015.

| | Gwisgoedd a Chyfarpar Diogelu Personol, Cyffredinol | | Darnau Sbâr Cynnal a Chadw Cerbydau | | Petrol a Diesel | | Arall | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013/14 £000** | **2014/15 £000** | **2013/14 £000** | **2014/15 £000** | **2013/14 £000** | **2014/15 £000** | **2013/14 £000** | **2014/15 £000** | **2013/14 £000** | **2014/15 £000** |
| **Balans sy’n ddyledus ar ddechrau’r flwyddyn** | 285 | 341 | 11 | 4 | 32 | 33 | 13 | 21 | 341 | 399 |
| Pryniannau | 403 | 305 | 0 | 0 | 190 | 180 | 10 | 15 | 603 | 500 |
| Wedi’u cydnabod yn draul yn ystod y flwyddyn | (349) | (307) | (7) | 0 | (189) | (185) | (2) | (7) | (547) | (499) |
| Trosglwyddo Stoc rhwng storfeydd | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (4) | 2 | 0 |
| **Balans sy’n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn** | 341 | 343 | 4 | 4 | 33 | 28 | 21 | 25 | 399 | 400 |

## 16. DYLEDWYR

| Ar 31 Mawrth 2014 £000 | | Ar 31 Mawrth 2015 £000 |
|---|---|---|
| 2,752 | Cyrff Llywodraeth Ganolog | 4,164 |
| 422 | Awdurdodau Lleol Eraill | 215 |
| 175 | Cyrff y GIG | 108 |
| 2,325 | Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | 209 |
| 1,276 | Endidau ac Unigolion Eraill | 7,625 |
| 224 | Taliadau Ymlaen Llaw | 214 |
| (10) | Darpariaeth am ddyledion anadferadwy | (10) |
| **7,164** | **Cyfanswm** | **12,525** |

| Ar 31 Mawrth 2014 £000 | | Ar 31 Mawrth 2015 £000 |
|---|---|---|
| **105** | **Dyledwyr Tymor Hir** | **148** |

## 17. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N GYFWERTH AG ARIAN PAROD

| Ar 31 Mawrth 2014 £000 | | Ar 31 Mawrth 2015 £000 |
|---|---|---|
| 3 | Arian a gedwir gan yr Awdurdod | 3 |
| 1,925 | Cyfrifon Cyfredol Banc | 1,823 |
| **1,928** | | **1,826** |

Mae hyn yn cynrychioli balans y llyfr arian ar 31 Mawrth 2015 sy'n cynnwys sieciau a godwyd gan yr Awdurdod, na chawsant eu cyflwyno i fanc yr Awdurdod i'w talu erbyn 31 Mawrth 2015.

## 18. CREDYDWYR

| Ar 31 Mawrth 2014 £000 | | Ar 31 Mawrth 2015 £000 |
|---|---|---|
| 677 | Cyrff Llywodraeth Ganolog | 779 |
| 549 | Awdurdodau Lleol Eraill | 165 |
| 0 | Corfforaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Masnachu | 93 |
| 2,976 | Endidau ac Unigolion Eraill | 4,818 |
| 39 | Rhoddion Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | 0 |
| 984 | Derbyniadau Ymlaen Llaw | 528 |
| **5,225** | **Cyfanswm** | **6,383** |

## 19. CRONFEYDD DEFNYDDIADWY

**Derbyniadau Cyfalaf**
Derbyniadau cyfalaf yw'r rhain sydd ar gael i gyllido gwariant cyfalaf ond nad oeddent wedi'u cymhwyso at y diben hwnnw ar 31 Mawrth 2015.

**Cronfeydd wedi'u Clustnodi**
Mae gan yr Awdurdod y cronfeydd canlynol wedi'u clustnodi:

- Cronfa Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar a sefydlwyd o ganlyniad i adolygiad Gwasanaeth i geisio moderneiddio'r fflyd er mwyn gwella effeithlonrwydd a lleihau costau refeniw'r dyfodol.
- Cronfa Buddsoddi i Arbed a sefydlwyd i ddarparu cronfa o arian y gall adrannau fenthyca ohoni i ddechrau cynllun buddsoddi i arbed. Rhaid i'r adrannau ad-dalu'r symiau a fenthyciwyd o arbedion y dyfodol er mwyn cynnal y gronfa o gyllid sydd ar gael.
- Cronfa Prosiectau Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ymgorffori cysyniadau cynaliadwyedd yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn datblygu. Mae'r gronfa fechan hon yn helpu i wella cynaliadwyedd drwy'r holl Wasanaeth.
- Mae'r Gronfa Rheoli Risg yn darparu cronfa o gyllid i fodloni newidiadau posibl yn y ffordd yr yswirir rhag risgiau ac i ariannu prosiectau a fydd yn lleihau costau yswiriant y Gwasanaethau.
- Diben y Gronfa Newid Proses a Gwasanaeth Ymgynghori yw galluogi'r Gwasanaeth i gael cyngor gan Ymgynghorwyr ar amodau economaidd a rheoliadau mwyfwy cymhleth, a hynny'n benodol ynghylch caffael, treth a rheoli trysorlys.
- Cronfa Hyfforddiant Gweithredol a sefydlwyd i roi sicrwydd bod digon o gyllid i sicrhau bod y Diffoddwyr Tân gweithredol yn cael eu hyfforddi i'r safonau uchaf.
- Cronfa Moderneiddio a Datblygu Meddalwedd a sefydlwyd ar ôl i adolygiad Gwasanaeth llawn nodi y gellid gwella effeithlonrwydd drwy ddatblygu a moderneiddio rhywfaint o feddalwedd gyfrifiadurol y Gwasanaeth, a hynny'n benodol am gyfathrebu mewnol, rheoli asedau a chymorth canolog.
- Sefydlwyd y ddwy gronfa Rheoli Newid, y naill i gyflogeion a phensiynau a'r llall ar gyfer adeiladau ac addasiadau, er mwyn helpu i ariannu addasiadau i adeiladau i fodloni anghenion cyfredol a bodloni newidiadau mewn rheoliadau cyflogaeth, a hynny'n benodol ynghylch gweithwyr rhan-amser a chyflog cyfartal.
- Mae'r gronfa Digwyddiadau Mawr yn gronfa o arian sy'n helpu i dalu costau ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau mawr lle nad oes modd talu'r costau drwy'r gyllideb Diffodd Tân a Gweithrediadau Achub arferol.
- Mae'r Gronfa Incwm Amrywiol wedi'i Glustnodi yn dal gwargedion a gynhyrchwyd gan gynlluniau amrywiol fel y Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Car a digwyddiadau codi arian at ddibenion penodol, er enghraifft, y cynlluniau Cyd-ymatebwyr. Cedwir y balansau'n benodol ar gyfer gwariant yn y dyfodol ar y cynlluniau hynny.

- Gellir defnyddio'r gronfa Hafalu Ardollau i leihau'r newidiadau yn yr ardoll a godir bob blwyddyn ar bob un o'r Awdurdodau Unedol cyfansoddol.
- Prosiect cyfathrebu yw Airwave sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid y Llywodraeth yn cael ei ryddhau yn ôl cyfradd flynyddol gyson pan fydd yr elfennau wedi'u hariannu o'r costau yn amrywio. Defnyddir y gronfa i leihau effaith y costau newidiol.

## 20. CRONFEYDD ANNEFNYDDIADWY

| 31 Mawrth 2014 | | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| (27,467) | Cronfa Ailbrisio (nodyn 21) | (26,923) |
| (26,974) | Cyfrif Addasu Cyfalaf (nodyn 22) | (25,470) |
| 406,339 | Cronfa Bensiwn (nodyn 23) | 452,557 |
| 575 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig (nodyn 24) | 579 |
| **352,473** | **Cyfanswm Cronfeydd Annefnyddiadwy** | **400,743** |

## 21. CRONFA AILBRISIO

Mae'r Gronfa Ailbrisio'n cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod yn sgil cynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Gyfarpar. Mae'r balans yn cael ei leihau pan fydd asedau gydag enillion cronedig:

- yn cael eu hailbrisio tuag i lawr neu eu lleihau a'r enillion yn cael eu colli
- yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu llyncu drwy ddibrisiad, neu
- yn cael eu gwerthu, a'r enillion yn cael eu sylweddoli.

Mae'r Gronfa'n cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad creu'r Gronfa. Mae enillion cronedig a gododd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2013/14 | | 2014/15 |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| **(27,870)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(27,467)** |
| 0 | Ailbrisio addasiad asedau | 141 |
| 403 | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol wedi'i ddileu i'r Addasiad Cyfalaf | 403 |
| **(27,467)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(26,923)** |

## 22. CYFRIF ADDASU CYFALAF

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n codi o'r gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer treulio asedau nad ydynt yn gyfredol ac ar gyfer cyllido caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Debydir y Cyfrif â'r gost gaffael, adeiladu neu wella wrth i ddibrisiad, colledion lleihad ac amorteiddiadau gael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostio cysoni o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigurau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Caiff y cyfrif ei gredydu â'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod yn gyllid ar gyfer y costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi'u cydnabod ar asedau a roddwyd sydd heb eto eu treulio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Gronfa Ailbrisio i ddal enillion felly.

### Cyfrif Addasu Cyfalaf

| 2013/14 | | 2014/15 | |
|---|---|---|---|
| £000 | | £000 | £000 |
| **(28,412)** | **Balans fel ar 1 Ebrill** | | **(26,974)** |
| | Gwrthdroi eitemau sy'n gysylltiedig â gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | | |
| 3,731 | ▪ Taliadau am ddibrisio a lleihad gwerth asedau nad ydynt yn rhai cyfredol | 3,670 | |
| 8 | ▪ Amorteiddio asedau anghyffyrddadwy | 21 | |
| 0 | ▪ Symiau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol wedi'u dileu adeg eu gwaredu neu werthu fel rhan o'r elw/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | 502 | |
| 3,739 | | 4,193 | |
| (403) | Symiau addasu wedi'u hysgrifennu allan o'r Gronfa Ailbrisio | (403) | |
| 3,336 | Swm net wedi'i ysgrifennu allan o gost asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a dreuliwyd yn ystod y flwyddyn | | 3,790 |
| | Cyllido cyfalaf a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn | | |
| 0 | ▪ Defnyddio Cronfeydd wedi'u Clustnodi i gyllido gwariant cyfalaf newydd | 0 | |
| (69) | ▪ Cyfraniadau a grantiau cyfalaf wedi'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gymhwyswyd i gyllido cyfalaf | 0 | |
| (1,829) | ▪ Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y | (2,286) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gronfa Gyffredinol | | |
| 0 | Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | 0 | |
| (1,898) | | | (2,286) |
| **(26,974)** | **Balans fel ar 31 Mawrth** | | **(25,470)** |

## 23. Y GRONFA BENSIWN

Mae'r Gronfa Bensiwn yn llyncu'r gwahaniaethau amseru sy'n codi o'r gwahanol drefniadau cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer buddion cyllid yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am fod y buddion yn cael eu hennill gan gyflogeion sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaeth a gydnabuwyd i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion ar fuddsoddiad ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn mynnu bod unrhyw fuddion a enillir yn cael eu cyllido, am fod yr Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr at gronfeydd pensiwn neu'n talu yn y pen draw am bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiwn yn dangos diffyg felly yn y buddion a enillwyd gan gyflogeion blaenorol a chyfredol a'r adnoddau a neilltuwyd gan yr Awdurdod i dalu amdanynt. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo pan fydd yn bryd talu'r buddion.

| **2013/14** | | **2014/15** |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| **421,139** | **Balans ar 1 Ebrill** | **406,339** |
| (32,608) | Enillion neu golledion ar sail tybiaethau actiwaraidd ar bensiynau a rhwymedigaethau. | 30,168 |
| 31,988 | Gwrthdroi eitemau sy'n gysylltiedig â buddion ymddeol wedi'u debydu neu eu credydu i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. | 31,132 |
| (14,180) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. | (15,082) |
| **406,339** | **Balans ar 31 Mawrth** | **452,557** |

## 24. CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONEDIG

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn llyncu'r gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ar Falans y Gronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau wedi'u digolledu sydd wedi'u hennill ond sydd heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r Cyfrif neu o'r Cyfrif.

| 2013/14 £000 | | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| **632** | **Balans ar 1 Ebrill** | **575** |
| (632) | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (575) |
| 575 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 579 |
| (57) | Y gwahaniaeth rhwng y tâl swyddogion a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r tâl y gellir ei godi yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol. | 4 |
| **575** | **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **579** |

## 25. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2013/14 £000 | Yn cynnwys | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| (9) | Llog a gafwyd | (5) |
| 517 | Llog a Dalwyd – benthyciadau | 496 |
| 213 | Llog a Dalwyd – prydlesau cyllidol | 288 |
| 721 | **Llif Arian Net o'r Gweithgaredd gweithredu** | 779 |

## 26. DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI A CHYLLIDO

| 2013/14 £000 | | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| (3,791) | Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anghyffyrddadwy | (2,830) |
| 0 | Enillion o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anghyffyrddadwy | 532 |
| **(3,791)** | **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **(2,298)** |

| 2013/14 £000 | | 2014/15 £000 |
|---|---|---|
| 0 | Derbyniadau arian benthyca tymor byr a thymor hir | 3,500 |
| 1,371 | Derbyniadau eraill o weithgareddau cyllido | 1,379 |
| (999) | Taliadau arian am ostwng y rhwymedigaethau sy'n ddyledus mewn perthynas â phrydlesau cyllidol | (989) |
| (296) | Ad-daliadau benthyca tymor byr a thymor hir | (286) |
| **76** | **Mewnlif arian net o weithgareddau cyllido** | **3,604** |

## 27. SYMIAU A ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU

Y dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl gwasanaeth ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r un a benodwyd gan y *Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaethau.* Fodd bynnag, gwneir penderfyniadau am ddyrannu adnoddau gan yr Awdurdod Tân ar sail adroddiadau cyllideb. Paratoir yr adroddiadau hyn ar sail wahanol i'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- Ni wneir unrhyw daliadau mewn perthynas â gwariant cyfalaf, ond mae colledion lleihad gwerth, ailbrisio a dibrisio sydd dros y balans ar y Gronfa Ailbrisio ac amorteiddiadau yn cael eu codi ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Mae cost buddion ymddeol yn seiliedig ar lifoedd arian (talu cyfraniadau pensiwn cyflogwr) yn hytrach na chost gwasanaeth cyfredol y buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn.

- Mae adroddiadau cyllideb yr Awdurdod Tân yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol o wariant ac incwm e.e. Costau cyflogeion, Safleoedd, Cludiant etc yn hytrach nag ar y sail wrthrychol a adroddir yn y cyfrifon e.e. Diogelwch

Cymunedol, Gweithrediadau Achub a Diffodd Tân, Cynllunio at Argyfyngau yn y Gwasanaeth Tân.

## SYMIAU A ADRODDWYD AR GYFER DYRANNU ADNODDAU

(Cysoni cyfrifon rheoli cyfredol â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)

### GWARIANT REFENIW NET

| 2013/14 | | 2014/15 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant £000** | | **Cyfanswm Gwariant £000** |
| | **Gweithredol** | |
| 19,162 | Cyflogeion – Amser llawn | 18,826 |
| 6,774 | Cyflogeion – Wrth gefn | 6,392 |
| 415 | Cyflogeion – Costau eraill | 430 |
| 1,944 | Safleoedd | 1,970 |
| 1,774 | Cludiant | 1,802 |
| 544 | Yswiriant | 647 |
